
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adroddiad Blynyddol

2016/17



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Beth fydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn ei ddweud wrthyh chi?

Cyfres o ddogfennau fydd yn disgrifio ein sefydliad, y gwasanaeth a'r gofal rydyn ni'n eu darparu a'r hyn rydyn ni'n ei wneud i gynllunio, cyflenwi a gwella gofal iechyd i chi yw ein Hadroddiad Blynyddol. Mae'n rhoi gwybodaeth am sut rydyn ni wedi gweithredu yn 2016/17, yr hyn a gyflawnwyd a sut rydyn ni'n bwriadu parhau i wella'r flwyddyn nesaf. Mae hefyd yn egluro pa mor bwysig yw i ni weithio gyda chi a gwrando ar eich barn er mwyn cyflenwi gwell gwasanaethau sy'n cyflawni eich anghenion mor agos i'ch cartref ag sy'n bosibl.

Penderfynir ar ein blaenoriaethau drwy ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sy'n amlinellu ein hamcanion a'n cynlluniau am y tair blynedd nesaf. Gallwch ddarllen y cynllun a darganfod mwy am ein Bwrdd Iechyd yn:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/88054/>

Mae ein Hadroddiad Blynyddol am 2016/17 yn cynnwys:

- Ein **Hadroddiad Perfformiad** gyda manylion am ein perfformiad yn erbyn ein targedau a'r camau a gynlluniwyd i gynnal/ gwella ein perfformiad.
- Ein **Hadroddiad Atebolrwydd** (dogfen ar wahân) gyda manylion ein prif ofynion atebolrwydd gan roi gwybodaeth am sut rydyn ni'n rheoli ac yn cadw golwg ar ein hadnoddau, yn canfod ac yn ymateb i'n risgiau ac yn cydymffurfio gyda ein trefniadau Rheolaeth. Gellir gweld hyn yn <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>
- Ein **Datganiad Ariannol a'n Cyfrifon Blynyddol** (dogfen ar wahân) sy'n rhoi manylion sut roedden ni'n gwario ein harian ac yn cyflawni ein goblygiadau. Gellir gweld hwn yn <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034>
- Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynhyrchu **Datganiad Ansawdd Blynyddol** (dogfen ar wahân) sy'n rhoi manylion am gamau a gymerwyd gennym i wella ansawdd ein gwasanaethau. Mae ar gael yma: [<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/)

Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Y Pencadlys, Ysbyty Sant Cadog

Ffordd y Porthdy

Caerllion, Casnewydd

NP18 3XQ

Ffôn: 01633 436700, neu e-bost abhb.enquiries@wales.nhs.uk

Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Rydyn ni'n falch o allu cyflwyno Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2016/17.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi parhau i sicrhau cynnydd yn ein Strategaeth Dyfodol Clinigol ac ail-ddylunio gwasanaethau gan gynnwys symud mwy o'n gwasanaethau i'n cymunedau ac yn nes at y bobl sydd angen eu defnyddio. Wrth i chi ddarllen drwy'r adroddiad hwn, gobeithio y deallwch y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud a'r cynnydd a wnaed.

Yn ystod y flwyddyn hon, roedden ni'n falch bod Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd Iechyd, Lles a Chwaraeon y Cabinet, wedi cyhoeddi y bydd Llywodraeth Cymru'n buddsoddi tua £350 miliwn yn ein Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC) newydd. Bydd yr ysbyty hwn yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer gofal arbenigol a chritigol. Mae'r ysbyty, fydd wedi'i leoli yn Llanfrechfa, Cwmbrân yn rhan bwysig o'n Strategaeth Dyfodol Clinigol ac mae'n benllanw mwy na 10 mlynedd o gynllunio. Mae cymeradwyo'r SCCC yn ardystiad go iawn i'n Strategaeth Dyfodol Clinigol sydd wedi profi ei hun ac, yn awr, gallwn symud ymlaen gyda'n cynlluniau i ddarparu gofal iechyd yr 21ain Ganrif i bobl Gwent. Mae'r rhain yn gyfnodau hynod gyffrous i'n cleifion, staff a'n cymunedau wrth i'n cynlluniau gael eu gwireddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Roedden ni'n falch bod ein Cynllun Tymor Canolig Integredig Tair Blynedd (IMTP) wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ac mae hyn yn dangos eu hyder yn ein gallu i gyflenwi a datblygu ein gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf. Y newyddion da arall i ni yw ein bod wedi cyflawni ein targed adennill costau ariannol statudol ar ein cyllideb o £1.1 biliwn. Mae hyn yn llwyddiant sylweddol yng ngoleuni'r pwysau gwasanaeth ac ariannol sy'n wynebu'r sefydliad. Rydyn ni'n un o'r ychydig Fyrddau Iechyd yng Nghymru sydd wedi cyflawni adennill costau ariannol yn 2016/17 tra hefyd yn gwella nifer o'n gwasanaethau iechyd. Cyflawnwyd hyn drwy ymroddiad, sgiliau a gwaith caled staff y Bwrdd Iechyd yn unig.

Mae galw cynyddol am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn, roedden ni'n cynnal mwy na 55,000 o lawdriniaeth ac wedi cael 123,047 ymweliad yn ein hadrannau Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghasnewydd a'r Fenni. Roedd tua 35,000 o ambiwlansys yn cludo cleifion i'n hadrannau D&A ac roedd 86,752 o bobl yn ffonio ein gwasanaeth Meddygon y Tu Allan i Oriau. Er waethaf y pwysau sy'n ein hwynebu, rydyn ni wedi ymrwymo i drin pob claf gyda pharch a charedigrwydd gan ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd gorau a rhai diogel iawn.

Ein staff yw ein hadnodd a'n hased mwyaf ac mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi digwydd oherwydd ymrwymiad a gwaith caled ein holl staff a'r rhai sy'n gweithio gyda ni. Mae ein staff yn parhau i ymddangos ar restrau byr gwobrau, i ennill

gwobrau ac i gael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am eu gwaith rhagorol.

Rydyn ni'n ddiolchgar am y gefnogaeth a'r adborth a dderbyniwn gan y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethau a byddem yn falch o barhau i glywed gennych - gallwch ein cyrraedd ar Facebook a Twitter, neu gallwch ddod i un o'n cyfarfodydd Bwrdd rheolaidd sy'n agored i'r cyhoedd. Rydyn ni hefyd yn hoffi ymweld â'n cymunedau i 'siarad iechyd' gyda phobl leol. Felly, cofiwch chwilio am hysbysebion am ymweliadau ymgysylltu wythnosol ag un o'r nifer o leoliadau cymuned ar draws Gwent.

Yn ychwanegol at yr adroddiad hwn, mae ein Datganiad Ansawdd Blynyddol, Datganiad Rheolaeth Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol ein Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn rhoi gwybodaeth fwy manwl am ein cynnydd mewn prif feysydd. Gellir gweld y dogfennau hyn ar ein gwefan: **www.aneurinbevanhb.wales.nhs.uk**

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen yr adroddiad hwn a'i fod yn rhoi darlun gwell i chi o'n gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2016/17.



David Jenkins
(Cadeirydd)



Judith Paget
(Prif Weithredwr)

Ein Sefydliad


Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009. Enillwyd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013.

Amcangyfrifir ein bod yn gwasanaethu poblogaeth o dros 639,000, tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Gyda chyllideb o **£1.1biliwn**, rydyn ni'n cyflenwi gwasanaethau gofal iechyd i bobl ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a hefyd yn darparu rhai gwasanaethau i bobl De Powys.

Gallwch ddarganfod mwy am ein sefyllfa ariannol drwy ddarllen ein Hadroddiad Atebolrwydd a'n Cyfrifon Ariannol 2016/17 (dolen):

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>



14,000

o aelodau staff

**Rydyn ni'n
gwasanaethu
poblogaeth o
639,000**


**21%
o Gymru**

Rydyn ni'n cael ein rheoli gan Fwrdd sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau am ein holl wasanaethau a'r gofal a ddarperir yn ein hardal. Yn 2016/17, cadeirydd y Bwrdd oedd David Jenkins OBE a Judith Paget, ein Prif Weithredwr, sy'n darparu'r cyfeiriad gweithredol.

Yn ystod 2016/17, roedden ni'n parhau i ddatblygu ein gweledigaeth a'n prif flaenoriaethau:

- Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y claf
- Sicrhau diogelwch, rhagoriaeth ac ansawdd yn ein holl wasanaethau bob amser
- Ymddiried yn ein staff a'u cefnogi i wneud y penderfyniadau cywir i gleifion ac i wella gofal
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon i sicrhau darparu gofal cleifion o safon uchel a gwerth am arian
- Gwella iechyd y cyhoedd drwy weithio gyda'n partneriaid i hybu ffordd o fyw iach a sicrhau bod mynediad i wasanaethau ataliol, yn arbennig i'r rhai mewn meysydd lle mae'r angen mwyaf.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn dull claf-ganolog, diogel, gonest a doeth. Mae'r Bwrdd yn gosod yr amcanion strategol, yn monitro cynnydd, yn cytuno ar gamau i gyflawni'r amcanion hyn ac yn sicrhau bod rheoliadau priodol ar gael ac yn gweithio'n gywir ar draws y sefydliad.



Mae ystod eang o Bwyllgorau a Grwpiau Cyngchori hefyd yn cefnogi gwaith y Bwrdd. Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd sy'n eu cadeirio; maen nhw'n darparu craffu, cynnal trafodaethau datblygu, asesu prif risgiau a monitro'r perfformiad yn erbyn cynlluniau'r Bwrdd Iechyd.



Hyd at fis Mai 2017, cadeirydd y Bwrdd Iechyd oedd David Jenkins OBE. Mae wedi arwain y sefydliad ers ei sefydlu yn 2009. Ymddeolodd David o'r Bwrdd ar ôl gwasanaethu ei dymor hwyaf o wyth mlynedd fel Cadeirydd. Dymuna'r Bwrdd Iechyd gydnabod y cyfraniad sylweddol a wnaeth David i ddatblygiad a pherfformiad y sefydliad dros ei amser a sicrhau bod y Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar iechyd a lles y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu a'n

staff.

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth am ein sefydliad, ein pwyllgorau a'n strwythurau yn ein Hadroddiad Atebolrwydd a'n Datganiad Rheolaeth Blynnyddol (dolen): <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Gwerthoedd a Chenhadaeth y Bwrdd Iechyd

Fel Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth ym mhob peth rydyn ni'n ei wneud ac yn annog yn weithredol ddiwylliant o gefnogaeth, parch, gonestrwydd a gwaith tîm.

Mae hyn yn cael ei gydbwyso gyda gwasanaethau asesu a herio parhaus i geisio gwella cydweddu a rhagori ar safonau cenedlaethol gan ddysgu o lwyddiant a chanfod lle mae angen gwella.

Mae'r uchelgais hwn hefyd yn cael ei yrru gan ymrwymiad i gydweithio ac ymgysylltu gyda chleifion, cymunedau, staff sefydliadau partner a llywodraeth.

Credwn mewn rhoi pobl yn gyntaf gyda staff yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddiogelu cleifion, meithrin angerdd cryf dros wella wrth gyflenwi gwasanaethau a sicrhau bod hyrwyddo balchder wrth gyflenwi gwasanaethau yn hybu gwelliannau mewn profiad cleifion.

Mae ein gwerthoedd a'n cynlluniau bob amser wedi canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau diogel a rhai o safon uchel. Rydyn ni hefyd yn ceisio cyflawni a rhagori ar dargedau cenedlaethol er waethaf heriau'n gysylltiedig â galwadau cynyddol ar wasanaethau iechyd wrth i boblogaethau gynyddu a phobl fyw yn hwy (gan eu gwneud yn fwy tebygol o fod angen mynediad i wasanaethau iechyd).

Rydyn ni'n benderfynol bode in gwerthoedd a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn cael eu gwireddu a'u cynnal. Rydyn am fod yn agored a thryloyw gyda'n cleifion a'r cyhoedd rydyn ni'n eu gwasanaethau. Hefyd, rydym am wrando ar ac ymgysylltu gyda'n cymunedau, cleifion, staff a phartneriaid wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau mewn modd effeithlon.

Mae mwy o wybodaeth am ein hymgysylltu gyda'r cyhoedd ar dudalennau 67-70 yr adroddiad hwn.

Ein gwerthoedd a'n cenhadaeth yw:

- **Gweithio i gael cymuned iachach**
- **Gofalu amdanoch pan fyddwch ein hangen**
- **Anelu at ragoriaeth ym mhob peth a wnawn**

Rheoli Risg

Mae'r risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd yn newid yn barhaus. Gall rhai risgiau affeithio ar lwyddiant ein hamcanion a rhaid i ni gymryd camau i'w lleddfu'n effeithlon.

Mae rheoli'n effeithlon y risgiau sy'n affeithio ar ein gwasanaethau clinigol yn helpu i sicrhau bod gofal iechyd diogel ac o safon uchel yn cael ei ddarparu i bobl leol a bod amgylchedd gwaith cefnogol yno i'n staff.

Yn ystod 2016/17, llwyddwyd i gyrraedd balans ariannol ar ddiwedd y flwyddyn gyda chefnogaeth buddsoddiad targed Llywodraeth Cymru.

Gallwch ddarganfod mwy am sut rydyn ni'n rheoli risg drwy ddarllen ein Hadroddiad Atebolrwydd, Datganiad Rheolaeth Blynnyddol a'n Cyfrifon Ariannol 2016/17 (dolen): <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Ein Cynllun

Bob blwyddyn, disgwylir i ni ddiweddarau ein **IMTP (Cynllun Tymor Canolig Integredig) tair blynedd**, sy'n amlinellu sut byddwn ni'n atgyfnerthu, moderneiddio a datblygu ein gwasanaethau i gyflawni'n well anghenion ieched a gofal y bobl yn ein cymunedau. Rhaid gwneud hyn o fewn y gyllideb a gawn gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd ein IMTP tair blynedd gyntaf ym mis Mehefin 2015 ac mae cynlluniau dilynol wedi adeiladu ar y llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd o'n cynlluniau cymeradwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gallwch ddarllen y cynllun llawn ar ein gwefan (dolen):



<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/document/273937>

Rydyn ni'n gweithio ar draws nifer o gymunedau, systemau a gwasanaethau; bydd ein huchelgais - ***gwella ieched a lles y boblogaeth dan ein gofal a gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu'r gofal mwyaf yn nes adref*** - yn llwyddo dim ond os bydd yn adlewyrchu anghenion ein cleifion a'i fod wedi'i alinio i gynlluniau a blaenoriaethau ein partneriaid. Croesawn weithredu Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hwn yn gam pellach tuag at uno agenda pob sefydliad sector cyhoeddus i gyflawni newid positif i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Gofal yn Nes Gartref

Dros y blynnyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn ymestyn yr ystod o wasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau gan gynnwys rhai eraill realistig i fynd i ysbyty. Rydym wedi buddsoddi llawer mwy mewn gwasanaethau sy'n cefnogi pobl i aros gartref a pharhau'n annibynnol.

Rydym wedi buddsoddi yn ein Timau Llesgedd ac Atal Syrthio. Hefyd, mae gennym fferyllwyr, gweithwyr cymdeithasol a dietegwyr mewn nifer o'n Meddygfeydd i gefnogi'r practis i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr yn lleol.

Mae'r pwyslais yn llawer mwy ar ofal sylfaenol (gwasanaethau y tu allan i ysbyty) ac mewn gwasanaethau cymuned i roi gwell mynediad lleol i bobl gael diagnosis a thriniaeth. Ein nod yw darparu cymaint o ofal ag sy'n bosibl yn nes gartref.

Mae ein cynllun yn parhau i gynnwys y camau nesaf yn ein Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae cymeradwyo'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC) yn darparu galluogwr allweddol i atgyfnerthu gwasanaethau aciwt ac yn elfen graidd o'r system gofal iechyd diogel a chynaliadwy y bwriadwn ddarparu ar gyfer y 600,000 o bobl dan ein gofal.

Rydyn ni, fel pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, yn wynebu heriau digymar ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ar ffurf pobl yn heneiddio, nifer cynyddol o gyflyrau tymor hir a lluo o broblemau iechyd eraill ar y cyd gyda disgwyliadau uwch cleifion, adnoddau cyfyngedig a heriau recriwtio.

Ar wahân i'r heriau hyn, rydyn ni wedi ymrwymo i drin pob claf dan ein gofal gyda pharch a charedigrwydd a chynnal urddas bob amser.

Rydyn ni'n hyderus bod ein cynllun yn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa gref i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn ddiogel, effeithlon a threfnus i sicrhau'r deilliannau gorau posibl i'r rhai sy'n eu defnyddio. Os byddwn ni'n llwyddo, bydd gennym:-

- ✓ lai o anghydraddoldebau iechyd gyda gyda llai o farwolaethau cynamserol o gyflyrau fel canser, trawiad y galon a strôc;
- ✓ well iechyd i bobl o bob oed yn ein cymunedau;
- ✓ berthynas mwy cyfartal rhwng pobl leol a gweithwyr iechyd proffesiynol gydag unigolion yn cael mwy o reolaeth dros eu cyflyrau ac yn rhannu gwneud penderfyniadau am y gofal sy'n gywir iddyn nhw;
- ✓ wasanaethau sylfaenol, cymunedol a gofal cymdeithasol cadarnach ym mhob un o'n hardaloedd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gan symud o ofal adweithiol i ragweithiol a chyflawni mwyafrif anghenion gofal y tu allan i leoliad traddodiadol ysbyty;
- ✓ yn bennaf, wasanaethau asesu a thrin achosion brys yn cael eu cyflenwi'r un diwrnod heb fod angen aros dros nos mewn ysbyty; a
- ✓ gwasanaethau arbenigol cynaliadwy cyn agor y SCCC yn 2021.



Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio'n arloesol ac mewn partneriaeth gyda'n staff, partneriaid a chymunedau lleol. Ar yr un pryd, byddwn yn gwneud newidiadau fydd yn ein helpu i gyflawni ein safonau ansawdd a pherfformiad yn gyson o fewn amlen ariannol sy'n cynrychioli'r gwerth gorau i'r pwrs cyhoeddus.

Symud ymlaen ...

Cydnabyddwn yr heriau a'r risgiau sylweddol i'r dyfodol ac rydym wedi meddwl am y rhain yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2017/18 - 2019/20 sydd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn monitro ac yn craffu'n fanwl ar weithredu ein cynlluniau gan sicrhau bod buddiannau'n cael eu gwireddu gan ein pobl i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r newid.

Mae'r **dudalen nesaf** yn amlinellu ein 10 Cynllun Newid Gwasanaeth (SCPs) sydd wedi'u datblygu i'n helpu i gyflawni ein Cynllun Tair Blynedd ac i barhau i wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'n cleifion.

Ein 10 Cynllun Newid Gwasanaethau (SCPs)

2016 to 2019

**1. Gostwng Anghydraddoldebau
Iechyd**



2. Atal a Gwella Iechyd y Bobl



**3. Gofal Sylfaenol a
Gwasanaethau yn y Gymuned**



**4. Integreiddio – Mynd â Gofal yn
Nes at Gartrefi**



5. Rheoli Cyflyrau Cronig



6. Gofal Iechyd Parhaus



7. Cynladwyedd Gwasanaethau



**8. Iechyd Meddwl ac Anableddau
Dysgu**



9. Gofal Brys ac Argyfwng



10. Gofal wedi'i Drefnu



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Gwnaed cynnydd sylweddol yn barod dros y flwyddyn ddiwethaf o fewn pob un o'r 10 SCPs. Fodd bynnag, bydd gwaith yn parhau i ddatblygu ymhellach y cynlluniau ac i wthio'r cyflenwi. Gwelir enghreifftiau o rai o'r datblygiadau newydd a chyffrous yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Hefyd cynhaliwyd ystod weithgareddau ail lunio nifer o wasanaethau yn ystod y flwyddyn i'w cyflenwi'n well er mwyn ymateb i anghenion cleifion. **Gallwch ddarllen am rai o'r gweithgareddau hyn yn yr adran nesaf o'r adroddiad hwn o dan y teitl' Gofalu Amdanoch Chi'.**

Credwn fod tystiolaeth o welliant ar draws ystod o'n gwasanaethau. Er hynny, sylweddolwn fod heriau go iawn o'n blaen i gyflawni'r angen am wasanaethau, yn arbennig ar gyfer gofal heb ei drefnu/ gwasanaethau brys.

Gofalu Amdanoch Chi

Yn ystod 2016/17, roedd nifer o ddatblygiadau o fewn y Bwrdd Iechyd i wella ein gwasanaethau. Mae gan y gwelliannau hyn effaith uniongyrchol ar y safon uchel o ofal rydyn ni'n ei ddarparu i'n cleifion a'n teuluoedd.

Isod, mae rhai enghreifftiau o'r gwelliannau a gyflawnwyd:




Ebrill 2016

Mae gwasanaeth profi llygaid newydd yn dod â thriniaeth Glawcoma'n nes gartref

Mae miloedd o drigolion Gwent sy'n dioddef gan symptomau'r cyflwr bygwth golwg glawcoma yn mynd i elwa o wasanaeth arloesol newydd GIG sy'n darparu mynediad i ganolfannau gofal llygaid yn y gymuned.

Mae'r canolfannau gofal llygaid sy'n cael eu cynnal gan Specsavers (Friars, Casnewydd), Julian Davies Optegwyr (Casnewydd) a Phillips Optegwyr (Blaenafon, Torfaen), ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, yn ceisio gostwng yr amser aros ar gyfer asesiadau cleifion allanol. Bydd y clinigau newydd o fewn siopau optegwyr y stryd fawr yn golygu y bydd cleifion yn gallu cael gofal llygaid arbenigol yn agos i'w cartrefi, heb orfod teithio i ysbytai.




Mae'r cynllun, sydd wedi bod ar ffurf peilot ers 2014, yn awr yn cael ei dreiglo i ganiatáu i optegwyr achrededig gynnal cyfres o brofion a fyddai wedi'u cynnal gynt mewn ysbyty er mwyn asesu os yw unigolyn mewn risg. Ar sail llwyddiant y peilot, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau arian ychwanegol i ddatblygu tair canolfan gofal llygaid ychwanegol ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy. Mae hyn yn golygu o fis Hydref 2016 fod o leiaf un

ganolfan gofal llygaid mewn pob awdurdod lleol yng Ngwent.

Mai 2016

Byw'n Dda Byw'n Hirach

Roedd y rhaglen Byw'n Dda Byw'n Hirach yn dathlu cynnal mwy na 3,000 o archwiliadau iechyd clefyd cardiofasgwlar mewn chwe phractis Meddygon Teulu ym Mlaenau Gwent a Chaerffili.



Recriwtiwyd chwe Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd i helpu i dreiglo rhaglen hyfforddi galluedd gynhwysfawr. Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth drylwyr i'r unigolion hynny a nodwyd fel rhai mewn risg cynyddol o glefyd cardiofasgwlar ac angen newidiadau i wella eu hiechyd a lleihau'r potensial o orfod cymryd meddyginiaeth statin yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn cynnig gwasanaeth monitro pwysau

gwaed i'r bobl a nodwyd fel rhai â phroblemau pwysau gwaed i ganfod y rhai fydd angen atgyfeiriad clinigol yn ôl at eu Meddygon Teulu.

Mae'r rhaglen hon gan y Bwrdd Iechyd yn darparu cefnogaeth i ddatblygu rhaglen genedlaethol gan gefnogi Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru i ddatblygu a gweithredu rhaglenni sgrinio tebyg i bobl.

Mehefin 2016

Help Bwrdd Iechyd i bobl ifanc gyda phroblemau delwedd corff

Dathlwyd llwyddiant grŵp cefnogi pobl ifanc sy'n brwydro gyda'u delwedd corff mewn dogfen ar y BBC o'r enw '#ýwelshteens: My Perfect Body'.

Mae Daune Green, Uwch Ymarferydd Anhwylderau Bwyta'n cynnal y grŵp delwedd corff ar gyfer plant a phobl ifanc yn ardal y Bwrdd Iechyd. Caiff pobl ifanc eu llethu'n ddyddiol gan ddelweddau digidol o gyrff a ffordd o fyw ar gyfryngau cymdeithasol, mewn cylchgronau ac ar y teledu. Mae'r nifer sy'n dioddef gan anorecsia a dysmorffia corff yn cynyddu ac mae mwy o bobl ifanc nag erioed angen cymorth ar gyfer problemau iechyd meddwl.



"Mae'r grŵp rydyn ni'n ei gynnal yn addysgu'r bobl ifanc hyn am beth yw delwedd corff ac rydym yn ymchwilio i'w gwerthoedd a'u syniadau personol am eu delwedd corff nhw. Ceisiwn eu cael i werthfawrogi pwy ydyn nhw a dim sut maen nhw'n edrych."

Daune Green, Uwch Ymarferydd Anhwylderau Bwyta

Gorffennaf 2016

Gwasanaeth diagnosis cancer yr ysgyfaint ar gael yn awr yng Ngwent

Cynhaliwyd gweithdrefn fodern i archwilio ar gyfer cancer yr ysgyfaint yng Ngwent am y tro cyntaf.



Lansiodd y Bwrdd Iechyd wasanaeth Biopsi Endobronciol dan arweiniad Uwchsain (EBUS) newydd er budd cleifion.

Prynwyd cyfarpar gwerth £300,000 gan y Bwrdd Iechyd i alluogi cynnal y weithdrefn newydd yn Ysbyty Nevill Hall yn Y Fenni. Ar ôl sganio'r frest, gall clinigwyr benderfynu defnyddio'r weithdrefn EBUS i gasglu darnau bach o feinwe o nodau lymph i'w dadansoddi. Mae'r cyfarpar newydd yn casglu samplau'n gywir diolch i fewnchwilydd uwchsain bach iawn sy'n galluogi clinigwyr

i ganfod nodau lymff ar sgrin ac arwain y nodwydd yn ofalus.

Bydd tua 400 o gleifion o Went yn elwa o'r gwasanaeth newydd hwn bob blwyddyn. Cyn hyn, roedd pobl Gwent yn gorfod teithio i Gaerdydd i gael y driniaeth. Roedd hyn yn golygu mwy o amser aros, anghyfleustra ac ansicrwydd i gleifion.

Awst 2016

Lansio canolfan llygaid arbenigol, y cyntaf o'i fath, yng Nghasnewydd

- Cyflwynwyd Canolfan Triniaeth Ddiagnostig Offthalmia (ODTC) arloesol yng Ngwent er mwyn gostwng amseroedd aros ar gyfer asesiad, diagnosis a thriniaeth i'w phobl sy'n dioddef gan gyflyrau llygaid cysylltiedig ag oed.

Mae'r ganolfan, yr un gyntaf o'i bath yn y DU lle gwelir optegydd y stryd fawr yn cynnig sgrinio dechreuol ac atgyfeirio i bobl â symptomau Dirywiad Macwlar Cysylltiedig ag Oed Gwlyb (AMD Gwlyb), ac i staff GIG gynnig triniaeth ar gyfer y cyflwr o'r un lleoliad ar y stryd fawr.

Gydag arian Llywodraeth Cymru, datblygwyd y ganolfan ODTC newydd drwy gydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a Specsavers ar Austin Friars yng nghanolfan dinas Casnewydd.

Caiff trigolion Gwent sy'n dioddef gan AMD Gwlyb, eu triniaeth yn awr yn y ganolfan newydd yn Specsavers. Mae hefyd yn cynnig asesiadau ac atgyfeiriadau. Mae AMD Gwlyb yn affeithio ar y macwla ar gefn llygad person ac, os na chaiff ei drin, gall achosi'r golwg i ddirywio o fewn dyddiau.



Medi 2016

Ymarfer ac Addysg yn y Gymuned

Gweithiodd y Bwrdd Iechyd gyda phartneriaid lleol i ddod ag Adsefydlu Pwlmonaidd yn nes at bobl yn y gymuned.

Ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflwr yr ysgyfaint, gall ymarfer ac addysg wneud gwahaniaeth sylweddol i'w bywyd. Lluniwyd cwrs chwe wythnos newydd i ymarfer ac addysgu pobl sy'n byw gyda chyflyrau ysgyfaint tymor hir yng Ngwent.

Mae'r rhaglen, a ddechreuodd mewn chwe ardal yng Ngwent (Glyn Ebwy, Bargoed, Y Fenni, Casgwent, Casnewydd a Chwmbryn), yn cyfuno sesiynau ymarfer corff gyda chynghor a thrafodaethau ar iechyd yr ysgyfaint.

Atgyfeirir cleifion gan Feddyg Teulu/ Nyrs Practis/ Clinig y Frest ac maen nhw'n mynychu dau sesiwn yr wythnos. Mae pob sesiwn yn cynnwys awr o ymarfer gyda gweithiwr ymarfer proffesiynol ac awr o addysg sy'n cael ei hyrwyddo gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Fe'i llunnir i helpu i ddeall pwysigrwydd iechyd a ffitrwydd a rheoli symptomau eu cyflwr.

Hydref 2016

Lansio app newydd i helpu plant a phobl ifanc ag awtistiaeth

Lansiwyd app ffôn symudol a thabled electronig newydd i wella rhannu gwybodaeth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth.

Crëwyd yr app 'About Me' mewn ymateb i adborth gan bobl ifanc ag awtistiaeth. Bydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl ag awtistiaeth gael hyd, cadw a rhannu gwybodaeth am eu cyflwr gyda phobl broffesiynol. Trawsnewidiwyd ef i ffurf electronig mewn ymateb i alw poblogaidd gan bobl ifanc eu hunain.



Nod yr app yw rhoi plentyn yng nghanol arfer clinigol a bydd yn darparu ateb rhad i rannu gwybodaeth. Roedd gwaith ymchwil o fewn ardal y Bwrdd Iechyd yn amlygu bod angen gwella yn ystod ac ar ôl asesiad diagnostig awtistiaeth, yn arbennig yn ymwneud â rhannu gwybodaeth oedd yn aml yn gofyn am ailadrodd hanes yr unigolyn mewn apwyntiadau.

Swyddogion Cyswllt y Clinig Llygaid yn helpu pobl â nam golwg

Rhoddodd y Bwrdd Iechyd arian ar gyfer swydd Swyddog Cyswllt y Clinig Llygaid (ECLO), mewn partneriaeth gyda'r elusen Golwg Cymru.

Mae rôl ECLO yn rhoi cymorth i gleifion mewn ysbytai yn yr ardal ynghyd ag mewn uned newydd dan ofal y gymuned yn Specsavers, Casnewydd. Mae ECLOs wedi'u hyfforddi'n arbennig i gynnig ystod eang o gefnogaeth i bobl sydd newydd gael diagnosis o nam golwg. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth bellach am gyflyrau golwg, trafod effaith cyflyrau gyda chleifion, helpu cleifion i gwblhau gwaith papur i gofrestru eu cyflwr, a chyfeirio cynnar a chywir at wasanaethau a ddarperir gan asiantaethau statudol a gwirfoddol.



"Pan fydd person yn colli ei olwg, mae'r gefnogaeth a'r wybodaeth a gaiff gan ECLO yn hollol hanfodol. Er waetha'r triniaethau rhagorol y gallwn eu cynnig i gynnal ac weithiau i wella golwg, mewn poblogaeth sy'n heneiddio, mae rhai pobl o hyd y bydd eu golwg yn dirywio ac angen cefnogaeth drwy'r cyfnod anodd hwn."

Lissa Gomer, Swyddog Cyswllt y Clinig Llygaid

Tachwedd 2016

Agor Uned Geni Newydd

Agorwyd uned newydd dan ofal bydwagedd yn Ysbyty Nevill Hall gyda bydwagedd o Went i gyd yn dod at ei gilydd i weld yr amgylchedd "cartref oddi cartref".

Sefydlwyd Uned Geni'r Fenni i gynnig amgylchedd cartrefol i ferched mewn beichiogrwydd risg isel i eni eu babanod. Mae pwll geni a nifer o gymhorthion geni yn yr ystafelloedd sy'n caniatáu i ferched reoli eu hamgylchedd a gwneud yr hyn sy'n dod yn naturiol iddyn nhw yn ystod y geni.

Mae unedau dan ofal bydwagedd fel hyn sydd wedi'u sefydlu yn ymyl unedau obstetreg, yn awr ar



gael yn gyffredinol ar draws y DU ac yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol i ostwng cyfraddau Toriad caesaraidd. Mae gan y Bwrdd Iechyd uned dan ofal bydwagedd llwyddiannus yn barod yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac uned rhydd dan ofal bydwagedd yn Ysbyty Ystrad Fawr.

Rhagfyr 2016

Uned Mân Anafiadau newydd a Lab Cath yng Nghasnewydd

Agorwyd Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd.



Gydag arian gan Lywodraeth Cymru, mae'r estyniad £2.9 miliwn i'r adran achosion brys yn helpu i wella cysylltiadau rhwng yr unedau D&A a Mân Anafiadau.

Mae'r uned newydd ar gyfer trin mân anafiadau a salwch yn darparu amgylchedd 21ain Ganrif i staff a chleifion.

Hefyd, agorwyd Cath Lab newydd, gyda chefnogaeth £1.8 miliwn o arian Llywodraeth Cymru, i wella gwasanaethau ar gyfer cleifion cardiaidd.

Ystafell archwilio yw Labordy Cathetreiddio, neu Lab Cath, gyda chyfarpar delweddu diagnostig a ddefnyddir i ddelweddu gwythiennau'r galon a siambrau'r galon.

Fideo newydd – 'Allwch Chi Ddweud Sut i Ddewis yn Dda?'

Cynhyrchodd y Bwrdd Iechyd fideo newydd i helpu pobl i ddewis y gwasanaeth iechyd gorau i'w hanghenion pan fyddan nhw'n sâl.

Mae'r ffilm dau funud yn bedwerydd yn y gyfres o fideos 'Dr Olivia' sy'n ymwneud â meddyg ieuengaf Cymru'n addysgu'r cyhoedd am sut i ddewis a ddylid ymweld â fferyllfa, optegydd, deintydd, Meddyg Teulu neu alw Galw Iechyd Cymru. Y tro hwn, mae Dr Olivia, disgybl naw oed yn Ysgol Gynradd Sant Julians, yn mynd â phobl o feddygfa orlawn i gymryd rhan mewn cwis o'r enw 'Allwch Chi Ddweud Sut i Ddewis yn Dda?'





Cynhyrchwyd y fideo'n fewnol gan staff y Bwrdd Iechyd ac aelodau eu teuluoedd oedd yn cyfarwyddo, cynhyrchu ac yn actio ochr yn ochr â'r Meddyg ifanc.

Er mwyn cefnogi'r ymgyrch cenedlaethol 'Dewis yn Dda', roedd y Bwrdd Iechyd yn annog pobl i edrych ar a rhannu'r fideo drwy dudalennau cyfryngau cymdeithasol eu Facebook, Twitter a YouTube.

Ionawr 2017

Tîm penodedig yn helpu pobl eraill â chyflyrau iechyd meddwl

Mae gwasanaeth arloesol i helpu pobl hŷn â chyflyrau iechyd meddwl yn 'gwneud gwahaniaeth mawr' i wasanaethau yn Ysbyty Nevill Hall.

Mae RAID (Asesiad Cyflym, Rhyngweithio a Rhyddhau) yn dîm iechyd meddwl amlddisgyblaeth arbenigol sy'n gweithio mewn ysbytai yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r tîm yn darparu asesiad, cyngor a chefnogaeth seiciatrig i gleifion 65 oed a throsodd â phroblemau iechyd meddwl. Canfyddir cleifion yn gyflym ac mae'r tîm RAID yn gallu treulio mwy o amser gyda'r claf gan roi agwedd personol ac wyneb cyfarwydd i ryngweithio drwy gydol eu harhosiad.



Nod RAID yw helpu cleifion i adael ysbytai'n fwy cyflym a sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cefnogi gan y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol cywir pan fydd y claf wedi'i ryddhau adref.

Mae'r tîm RAID yn cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sef nyrsys, seiciatryddion, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol a seicolegwyr cynorthwyl.

Gwirfoddolwyr yn Taclo Unigrwydd

Roedd y Bwrdd Iechyd yn lansio menter newydd i daclo unigrwydd o'r enw 'Ffrind i Mi'.



Sefydlwyd Ffrind i Mi i geisio sicrhau bod unrhyw un sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig yn cael ei gefnogi i ail gysylltu gyda'i gymuned. Ers lansio'r gwasanaeth, mae 152 o bobl wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r gwasanaeth drwy fod yn gyfaill i berson unig. Atgyfeiriwyd mwy na 150 at y gwasanaeth.

Cynhyrchwyd gwefan lle gall pobl ei defnyddio i gyfeirio eu hunain neu eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda nifer o asiantaethau partner i helpu i sefydlu grwpiau cefnogi a chynnal achlysuron befriending ar

draws ein cymunedau.

"Mae unigrwydd yn llechwraidd. Mae'n rhywbeth hynod gyfrinachol. Mae'n epidemig ac fel cymdeithas, dylem gydweithio i gefnogi'r rhai sy'n fregus."

Joan Watkins, un o drigolion Caerllion

Chwefror 2017

Ysgrifennydd y Cabinet yn agor Sganiwr MRI Eithafion cyntaf De Cymru'n swyddogol

Dadorchuddiodd y Bwrdd Iechyd Sganiwr MRI Perifferol newydd yn Ysbyty Ystrad Fawr.



Mae'r Sganiwr Perifferol (gelwir hefyd yn sganiwr MRI eithafion) yn caniatáu sganio breichiau neu goesau cleifion yn hytrach na bod eu cyrff i gyd yn mynd i mewn i'r sganiwr.

Mae hyn yn rhoi gwell profiad i glaf yn arbennig un sy'n teimlo'n glawstroffobig mewn MRI arferol. Hefyd, mae'n galluogi plant i gael sganio eu coesau a'u breichiau heb fod angen eu tawelu.

Ariannwyd prynu'r Sganiwr Eithafion gan Lywodraeth Cymru a hwn yw'r ail sganiwr o'i fath yng Nghymru ond

y cyntaf yn Ne Cymru.

Mawrth 2017

Gwasanaeth penodol ar gyfer henoed sy'n syrthio yn helpu mwy na 200 o gleifion

Mae gwasanaeth penodol ar gyfer cleifion hŷn sydd wedi syrthio yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, wedi helpu mwy na 200 o bobl i ddod yn ôl ar eu traed.

Mae'r Gwasanaeth Ymateb i Gwympiadau sy'n cael ei redeg ar y cyd gan Wasanaethau Ambiwylans Cymru a'r Bwrdd Iechyd. Y nod yw darparu ymateb prydlon i gleifion hŷn sydd wedi syrthio yn y gymuned a naill ai heb anafu neu wedi cael mân anaf.



Mae'r tîm, sy'n cynnwys parafeddyg cofrestredig a therapydd mewn cerbyd arbennig, yn cynnig asesiad meddygol a chymdeithasol llawn i gleifion. Maen nhw hefyd yn eu cyfeirio at y llwybr gofal mwyaf priodol i'w hanghenion ac yn y mwyafrif o achosion yn gallu atal ymweliad diangen ag Adran Achosion Brys.

Lansiwyd treial chwe mis ym mis Hydref 2016 ac erbyn mis Mawrth 2017, mae'r tîm wedi helpu 229 o gleifion sydd wedi cysylltu â'r system 999. Roedd 183 o'r rhain yn gallu cael eu trin gartref.

Cefnogi Ysmygwyr Gwent i roi'r gorau ar Ddiwrnod Dim Ysmygu 2017

Cynigiwyd cefnogaeth i ysmygwyr yn ardal y Bwrdd Iechyd i roi'r gorau i ysmygu am byth ar Ddiwrnod Dim Ysmygu - dydd Mercher 8 Mawrth.

Mae'r ymgyrch blynyddol hwn yn annog cannoedd o ysmygwyr i geisio rhoi'r gorau i ysmygu ar Ddiwrnod Dim Ysmygu.

Dengys astudiaethau bod dwy ran o dair o ysmygwr am roi'r gorau iddi. Mae bron i 20% o oedolion yn ardal y Bwrdd Iechyd yn parhau i ysmygu.

Roedd Tîm Iechyd y Cyhoedd Gwent Aneurin Bevan yn hybu buddiannau iechyd rhoi'r gorau i ysmygu ar Ddiwrnod Dim Ysmygu drwy eu hymgyrch Help 2 Lleol sy'n gofyn i ysmygwyr 'chwiliwch am eich rheswm i roi'r gorau i ysmygu'.

Mae gan yr ymgyrch Help 2 dudalennau gwefan, Facebook, Twitter ac Instagram, a luniwyd i helpu pobl yng Ngwent i gael hyd i wasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu GIG am ddim mwyaf priodol iddyn nhw

Cymeradwyo'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol

Cyhoeddodd Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd Iechyd, Lles a Chwaraeon y Cabinet gymeradwyaeth i'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC) £350m ym Mhlasty Llanfrechfa, Cwmbran.

Mae'r ysbyty pwrpasol 560-gwely'n ffurfio rhan bwysig o'n Strategaeth Dyfodol Clinigol a lansiwyd yn 2004, i foderneiddio gwasanaethau iechyd yng Ngwent. Bydd y SCCC yn creu amgylchedd hynod arbenigol i gefnogi trin cleifion sydd angen gofal brys cymhleth ac aciwt yn ein rhanbarth.

"Mae cymeradwyo'r SCCC yn gadarnhad real o'n Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae'r strategaeth hon wedi'i phrofi ac rydyn ni'n awr yn gallu symud ymlaen gyda'n cynlluniau i ddarparu gofal iechyd yr 21ain ganrif mewn ysbyty hynod fodern ar gyfer pobl Gwent

Joan Watkins, un o drigolion Caerllion

Amserlen

2004/5 Strategaeth Dyfodol Clinigol Gwent yn cynnig tri ysbyty newydd gan gynnwys Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC).

2008 Ysbytai llai yng Nglyn Ebwy ac Ystrad Mynach yn cael caniatad i symud ymlaen.

2012 Cynlluniau cyntaf safle Plasty Llanfrechfa yn cael eu datgelu.



2013 Achos busnes amlinellol yn cael ei gymeradwyo. Nodi SCCC fel 'pwynt sefydlog' yn rhaglen De Cymru.

2014 Caniatad cynllunio wedi'i roi.

2015 Cymeradwyaeth ar gyfer dymchwel hen adeiladau ar y safle.

2016 Vaughan Gething, Ysgrifennydd Iechyd, Lles a Chwaraeon yn rhoi caniatad i ddechrau adeiladu.

2017 Gwaith adeiladu'n dechrau ar yr ysbyty newydd.

Bydd adeiladu'n dechrau ar y safle yn ystod haf 2017, gan gwblhau yn ystod haf 2021. Bwriedir agor yr ysbyty i gleifion yn ystod Hydref 2021.

Pa wasanaethau fydd yn cael eu cynnig yn y SCCC?

Bydd yr ysbyty newydd yn delio â'r holl achosion brys mawr ac yn trin a gofalu am y rhai sydd angen gofal cymhleth, arbenigol neu gritigol.

Bydd yn cynnwys adran achosion brys 24-awr ac uned asesu i ddelio ag achosion brys ac adfywio. Hefyd, bydd ganddi ystod eang o wasanaethau diagnostig, theatrau llawdriniaethau ac uned obstetreg o dan ofal ymgynghorwyr.



Safle Llanfrechfa Grange

Bydd gan yr ysbyty uned asesu plant benodol fydd yn rheoli achosion brys paediatreg a bydd yn ganolfan ar gyfer gofal dwys newydd-anedig.

Bydd patholeg, fferyllfa a radioleg, gan gynnwys sganwyr MRI a CT, ar gael yn y Ganolfan. Hefyd, bydd llain hofrennyddion ar y safle i alluogi i achosion brys gael eu trosglwyddo'n gyflym.



Mae ein Strategaeth Dyfodol Clinigol yn amlinellu swyddi newydd ar gyfer Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Gwynllyw ac Ysbyty Nevill Hall, yn dilyn agor y SCCC. Y nod yw y bydd y rhain yn ymuno ag Ysbyty Ystrad Fawr, Ysbyty Aneurin Bevan, Ysbytai Casgwent a Sir i ddarparu rhwydwaith o ysbytai sy'n gallu darparu'r gofal mwyaf i'w cymunedau lleol.



Dyma 10 peth y dylech wybod am y SCCC ...

1. Mae eich Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC) yn ysbyty hynod fodern newydd



2. Mae'r gwaith adeiladu'n dechrau yn ystod haf 2017



3. Bydd yn cael ei hadeiladu ar safle Plasty Llanfrechfa, ger Cwmbran



4. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru £350m i'w hadeiladu



5. Bydd 471 gwely ar gyfer cleifion



6. Bydd yr ysbyty'n agor ei ddysau i gleifion yn 2021



7. Bydd llain hofrenyddion yno ar gyfer ambiwlansys awyr



8. Bydd mwy na 40 gwasanaeth arbenigol gwahanol yn y SCCC



9. Bydd arbenigwyr yn cydweithio o dan un to i greu canolfan ragoriaeth



10. Ni fydd unrhyw glinigau cleifion allanol yn yr ysbyty newydd – byddan nhw'n aros yn ein hysbytai presennol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Cysylltiadau Iechyd Byd-eang

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes hir o gefnogaeth sefydliadol i brosiectau Cysylltiadau Iechyd Byd-eang. Roedd hyn yn dechrau gyda chefnogaeth i Gyswllt Gwent â De Ethiopia oedd yn rhedeg am 16 mlynedd gyda chefnogaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'r cyswllt hwn yn awr wedi'i thorri gan fod y prosiectau wedi mynd yn hunangynhaliol. Mae un rhan o'r rhaglen yn parhau drwy'r ddolen Midwives@Ethiopia.

Midwives@Ethiopia

Mae'r tîm hwn o fydwragedd y DU yn rhannu gwybodaeth a sgiliau yn Ethiopia.



Defnyddiwyd arian gan Gymhorthdal Hwb Cymru i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach yn ystod 2016/17.

Mae gennym Bwyllgor Cyswllt Iechyd Byd-eang dan arweiniad David Jenkins, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd. Hefyd, mae gennym Arweinydd Clinigol Cyswllt Iechyd Byd-eang, Dr Tei Sheraton.

Rydyn ni'n llofnodwyr i 'Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol' Canolfan Cydlynw Iechyd Rhyngwladol, yn rhoi cefnogaeth i staff drwy Bolisi Caniatâd Arbennig Cymru gyfan a chynghor ac apwyntiadau dilynol i'r holl staff sy'n mynd ar ymweliadau wedi'u cymeradwyo i wledydd datblygol. Rydyn ni'n cefnogi gwaith gweithredu siarter IHCC a gwaith Rhwydwaith Dolen Iechyd Cymru dros Affrica.

Golwg 20:20 Malawi

Dan arweiniad Llawfeddyg Llygaid y Bwrdd Iechyd, Andrew Feyi-Waboso ers 2001, nod y prosiect yw brwydro yn erbyn a thrin achosion dallineb y gellir ei atal ym Malawi.

Yn 2015/16, roedd Tîm Gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn ffurfioli eu cefnogaeth i'r prosiect yn dilyn ymweliad gan y tîm o Malawi, gan arwyddo Memorandwm Dealltwriaeth.



Cymru dros Affrica

Rydyn ni'n annog ein cyflogai i gyfrannu at y rhaglen 'Cymru dros Affrica' sy'n sicrhau elw'n ôl i'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r rhaglen, mewn cydweithrediad gydag Academi Cymru, yn cynnig cyfle unigryw i staff GIG weithio ar brosiectau datblygu a gwella sgiliau arwain. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r rhain ac yn awyddus i ddatblygu ymhellach.

Anaesthesia DIOGEL

Mae anaesthetwyr y Bwrdd Iechyd wedi cefnogi cyflwyno cyrsiau hyfforddi a datblygu cyrsiau newydd mewn cydweithrediad gyda'r AAGBI (Cymdeithas Anaesthetyddion Prydain Fawr ac Iwerddon), WFSA (Ffederasiwn Cymdeithas Anaesthesiolegwyr y Byd), a RCS (Lloegr) (Coleg Brenhinol Llawfeddygon).

Maen nhw hefyd wedi gweithio gyda RCoA (Coleg Brenhinol Anaesthetyddion) i ddiweddarau adnodd e-ddysgu ar gyfer gwledydd sy'n datblygu.



"Nod y Bwrdd Iechyd yw hybu, cefnogi a diogelu gweithgareddau cyswllt iechyd rhyngwladol a wneir gan aelodau o'n staff. Rydyn ni'n hynod o falch o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn ac rydym am annog mwy o staff i wneud hyn a chefnogi'r mentrau hyn. Mae ein cysylltiadau iechyd rhyngwladol yn creu buddion go iawn i bawb sy'n ymwneud â nhw. Hefyd, mae'r cysylltiadau hyn yn dangos tystiolaeth glir o'n gwerthoedd fel sefydliad, gwerthoedd y dylem i gyd fod yn falch ohonyn nhw."

Mr David Jenkins, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd

Llwyddiannau Staff

Dathlu ein Staff

Cynhaliwyd ein chweched Seremoni Cydnabod Staff ym mis Rhagfyr yng Nghanolfan Christchurch, Casnewydd.

Roedd mwy na 300 o aelodau'r staff yn mynychu'r achlysur oedd yn dathlu llwyddiannau staff ar draws y Bwrdd Iechyd. Gwesteiywyr yr achlysur oedd Judith Paget, Prif Weithredwr a David Jenkins, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd.



Roedd y gwobrau'n cydnabod staff a thimau ar draws y sefydliad oedd wedi cyflenwi gwasanaethau a dangos arweiniad o'r safon uchaf.

Enillwyr y gwobrau oedd:

- **Iechyd a Lles** – Tîm Byw'n Dda Byw'n Hirach
- **Gwella Profiad Cleifion** – Cyd-enillwyr – Tîm Parc Cedar, Ysbyty'r Tri Chwm, a'r Tîm Diabetes Strwythuredig
- **Arweinyddiaeth** – Dr Alun Edwards
- **Gweithio mewn Partneriaeth** – Tîm Gofal Lliniarol a Ward 3.2 Ysbyty Ystrad Fawr
- **Ansawdd, Cynladwyedd ac Effeithlonrwydd** – Tîm Fasgwlar Aml-ddisgyblaeth
- **Tîm y Flwyddyn** – Tîm Maes Parcio Ysbytai Brenhinol Gwent a Nevill Hall
- **Mynd yr Ail Filltir** – Ward Bargoed, Ysbyty Ystrad Fawr
- **Addysg, Ymchwil ac Arloesi** – Adran Achosion Brys, Ysbyty Brenhinol Gwent
- **Gwobr y Cadeirydd**– Rhiannon Davies, Swyddog Iaith Gymraeg
- **Gwobr y Prif Weithredwr** – Cyd-enillwyr – Jackie Austin, Nyrs Ymgynghorol Gwasanaethau Methiant y Galon a Gwasanaethau Adsefydlu Cardiaidd a'r Tîm Strôc
- **Gwobr Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan**– Denise Llewellyn, Cyfarwyddwr Nyrsio wedi ymddeol
- **Byw ein Gwerthoedd** – Kerry Jeffries, (Ysgrifennydd, Gwasanaethau Mamolaeth); Yvonne James (Porthor, Ystafell y Post Ysbyty Brenhinol Gwent); Ian Morris (Cyfarwyddwr Cynllunio Cynorthwyol); Michelle Donovan (Ymarferydd Nyrsio, Clinig dan Ofal Nyrs, Trefethin); Joanne Williams (Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd, Clinig dan ofal Nyrs Trefethin); Lynda Fletcher (Gweinyddwr Gwasanaeth Seicoleg De Powys); a Karen Newman (Pennaeth Cyfathrebu).

Llongyfarchiadau I bawb!



Yn ystod y flwyddyn, cydnabuwyd staff a gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd hefyd yn lleol ac yn genedlaethol drwy gyfres o wobrau ...

Gwobr 'Point of Light'

Derbyniodd Lara Cowpe, un o Therapyddion Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd wobr 'Point of Light' gan y Prif Weinidog am godi'n bersonsol dros £85,000 ar gyfer Ymddiriedolaeth Canser Ieuenctid.



Prif Wobr Cyflwyno



Enillodd Dr Michelle Oliver, hyfforddai SRH, y wobr am y cyflwyniad llafar gorau yng Nghyfarfod Gwyddonol Blynnyddol Cyfadran Iechyd Rhyw ac Atgynhyrchu.

Cyflwynodd Michelle ei gwaith ar ddarpariaeth atal cenhedlu union ar ôl geni yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Gwobrau Gofal Ymataliad Cenedlaethol

Derbyniodd Tîm Eniwresis Gwasanaeth Nyrsys Iechyd Ysgol y Bwrdd Iechyd, wobr yn y Tŷ Cyffredin am eu hymgais 'Hybu Ymataliad mewn Gofal Sylfaenol a Chymuned' yn y Gwobrau Gofal Ymataliad Cenedlaethol. Dyma'r llwybr a'r gwasanaeth Eniwresis Newydd i blant yng Ngwent.

Gwobr y Gymuned i sylfaenydd y ras hwyl

Derbyniodd Paul Mason, Rheolwr Perfformiad a TG gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu, Wobr Ddinesig am ei waith yn sefydlu ras hwyl i godi arian ar gyfer Ysgol Gynradd Coed Efa Cwmbrân.



Anrhyddedau Pen Blwydd y Frenhines - Mehefin 2016

Derbyniodd yr aelodau staff canlynol gydnabyddiaeth frenhinol am eu gwaith yn rhestr Anrhyddedau Pen Blwydd y Frenhines ...



Cafodd yr **Athro Helen Houston** (*llun ar y chwith*), cyn aelod annibynnol y Bwrdd Iechyd, athro ymarfer cyffredinol ym Mhrifysgol Caerdydd, ei anrhyddedu gyda'r MBE am wasanaethau i addysg feddygol a gwasanaethau iechyd yn Ne Cymru.

Jane Hart (*llun ar y dde*), - cydnabuwyd nyrs arweiniol cancer Macmillan y Bwrdd Iechyd gyda'r MBE am ei gwasanaeth i wella gofal cancer yn ne ddwyrain Cymru.



Tanya Strange (*llun ar y chwith*), - cafodd y nyrs rhanbarth mewn gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd, MBE am ei gwasanaeth i ofal nyrsio yn ne ddwyrain Cymru.

Caroline Bovey (*llun ar y dde*) - enillodd Dietegydd arweiniol Iechyd y Cyhoedd y Bwrdd Iechyd a Chadeirydd Grŵp Cyngori Lesbaid, Hoywon, Deurywiol a Thrawsrywiol y Bwrdd Iechyd, y BEM am wasanaethau i Gydraddoldeb o fewn y GIG yng Nghymru.



Gwobr Nyrs y Frenhines



Cafodd y Nyrs Gymuned Alison Magor (*llun ar y chwith*) y teitl nodedig 'Nyrs y Frenhines' (QN) oherwydd ei safonau ymarfer uchel a'i gofal claf-ganolog.

Cafodd Alison, sy'n rheolwr Nyrsys Ardal yng Nghlinig Bryn Hyfryd yng Nghroesyceiliog, Cwmbrân, y teitl gan yr elusen nyrsys y gymuned Sefydliad Nyrsys y Frenhines (QNI). Nid yw'r teitl yn wobwr am wasanaeth blaenorol ond mae'n dangos ymrwymiad i safonau uchel o ofal cleifion, dysg ac arweinyddiaeth.

Gwobrau Gwelliant Parhaus y Gymuned (AWCIC) Cymru gyfan

Llwyddodd tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan (ABCi), (*llun ar y dde*) i ennill y categori Arweinyddiaeth.



Gwobrau Cymdeithas Glanhau Gofal Iechyd (AHCP)



AHCP yw'r gymdeithas broffesiynol fwyaf a mwyaf dylanwadol ar gyfer glanhau gofal iechyd yn y DU. Yn eu Gwobrau blynyddol 2016, enillodd yr Arolygydd Domestig Sue Shorney, (*llun - pellaf ar y chwith*) a'i Thîm Domestig y Wobr 'Tîm Arolygwyr y Flwyddyn'.

Gwobrau Cymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd Cymru

Llongyfarchiadau i Sue Ball (*llun - pellaf ar y chwith*) a Jill Evans am ennill Gwobr HPMa Cymru am Bartneriaeth ac Ymgysylltu – Byw'r Gwerthoedd.



Gwobrau GIG Cymru



Enillodd y Bwrdd Iechyd (ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Chymdeithas Etifeddiaeth Ddigidol) y wobwr 'Gwella Ansawdd drwy ddefnyddio Methodoleg Gwella Ansawdd gyda'i Gilydd' yng Ngwobrau GIG Cymru.

Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru

Roedd ein nyrsys unwaith eto'n amlwg iawn yng Ngwobrau Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru. Nid yn unig roedd nyrsys ein Bwrdd Iechyd yn cael saith gwobr (gweler isod), ond cafodd ein Sian Thomas ni (*llun - yn y canol*) wobwr uchaf y noson sef Nyrs y Flwyddyn Cymru.



Yr enillwyr eraill o'r Bwrdd Iechyd oedd:

Gwobr Cyflawniad Oes – Karen Logan OBE

Gwobr Nyrsio Dyngarol – Donna Hornby, Nyrs Practis



Gwobr Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd – Mike Mallett, gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd, Cydlynnydd Arbenigol Cyfnewid Nodwyddau a Fferyllfa

Gwobr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu – Jeffrey Davies, Rheolwr Clinigau

Gwobr Plant a Bydwreigiaeth – Sian Thomas, Nyrs Ymgynghorol

Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru – Tom Grace, Uwch Nyrs /Pennaeth Amddifadedd Dulliau Diogelu Liberty

Cymrodoriaeth i Alison

Enillodd Alison Williams, ein Harweinydd Proffesiynol Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd Plant, Gymrodoriaeth Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd yn y seremoni anrhyddedau yn Church House, Westminster.



Derbyniodd y gymrodoriaeth am ei gwaith ar ddylanwadu ac effaith polisi.

Gwobr Cylchgrawn y Gwasanaeth Iechyd



Enillodd ein tîm 'Byw'n Dda Byw'n Hirach' wobwr nodedig Cylchgrawn y Gwasanaeth Iechyd (HSJ) mewn achlysur yn Llundain ym mis Tachwedd 2016.

Enillodd y rhaglen, a lansiwyd y llynedd a'r cyntaf o'i fath yng Nghymru, y wobwr HSJ am 'Wella Deilliannau drwy Ddysgu a Datblygu'.

Anrhyddedau'r Flwyddyn Newydd



Derbyniodd yr aelodau staff canlynol gydnabyddiaeth am eu gwaith yn rhestr Anrhyddedau Pen Blwydd y Frenhines...

Wendy Warren (*Ilun ar y chwith*), Derbyniodd ein Pennaeth Cynllunio a Chyfngau Sifil yr MBE am wasanaethau i gynllunio brys a diogelwch iechyd.

Theresa Thomas (*Ilun ar y dde*), Derbyniodd y Nyrs Staff Uned Asesu Meddygol, y BEM am wasanaethau i ofal nyrsio yng Ngwent




Gwobrau BEST



Claire Curtin (*Ilun ar y chwith gydag Ysgrifennydd y Cabinet Vaughan Gething AC*), Enillodd y cofrestrydd mewn Deintyddiaeth Gofal Arbennig, Wobr am 'Gyfraniad eithriadol i godi proffil eu harbenigedd yng Nghymru' yng Ngwobrau BEST 2017.

Enillodd Claire hefyd Gwobr Hyfforddai BEST cyffredinol a gyflwynwyd iddi gan Ysgrifennydd Iechyd y Cabinet.

Dr Rachel Lee (*Ilun ar y dde*), Enillodd yr hyfforddi mewn obstetreg a gynaecoleg wobwr am ei 'Chyfraniad Eithriadol i'r Rhaglen Hyfforddi' yng



Ngwobrau BEST.

Adroddiad Perfformiad

Ein perfformiad yn 2016/17...

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynnyddol yn rhoi gwybodaeth am berfformiad ein safonau a'n huchelgeisiau ein hunain ynghyd ag yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru'n eu gosod i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

Rydym wedi defnyddio'r saith categori o'r **Cerdyn Sgorio Cytbwys** fel penawdau i gyflwyno'r wybodaeth hon, sef:

- Byw'n Iach
- Gofal Diogel
- Gofal Urddasol
- Gofal Effeithlon
- Gofal Amserol
- Gofal Personol
- Ein Staff a'n Hadnoddau

Mae'r **Cerdyn Sgorio Cytbwys** (isod) yn offeryn gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi fframwaith i GIG Cymru i fonitro perfformiad yn ei erbyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Gwell perfformiad	Perfformiad cynaliadwy	Dirywiad mewn perfformiad	Crynodeb o'r targed
AROS YN IACH – digon o wybodaeth a chymorth i reoli fy iechyd corff a meddwl	4 mesur	0 mesur	6 mesur	
GOFAL DIOGEL – cael fy niogelu rhag niwed ac yn diogelu fy hun rhag niwed y gwn i amdano	6 mesur	0 mesur	3 mesur	
GOFAL URDDASOL – cael fy nhrin â gofal urddasol a pharchus ac rydw i'n trin eraill yr un fath	2 mesur	0 mesur	1 mesur	
GOFAL EFFEITHLON – derbyn y gofal a'r cymorth cywir mor lleol ag sy'n bosibl ac yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus	3 mesur	1 mesur	4 mesur	
GOFAL PRYDLON – cael mynediad prydlon i wasanaethau ar sail angen clinigol ac yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am fy ngofal	11 mesur	0 mesur	10 mesur	
GOFAL UNIGOL – cael fy nhrin fel unigolyn, gyda fy anghenion a'm cyfrifoldebau fy hun	2 mesur	1 mesur	3 mesur	
EIN STAFF A'N HADNODDAU – Gallu cael gwybodaeth am sut mae'r GIG yn agored a thryloyw am y defnydd o adnoddau a gallaf wneud defnydd gofalus ohonyn nhw	8 mesur	0 mesur	3 mesur	
CRYNODEB	36 mesur	2 mesur	30 mesur	

Byw'n Iach


Brechiadau'r Ffliw

Mae'r fflw yn salwch resbiradol sy'n affeithio ar yr ysgyfaint a'r llwybrau anadlu. Gall unrhyw un ddal y fflw ac mae'n hawdd trosglwyddo firws y fflw o berson i berson. Gall y fflw ledaenu'n gyflym, yn arbennig mewn cymunedau caeedig fel cartrefi preswyl. Mae'r mwyafrif o bobl sy'n ffit ac yn iach yn gwella'n llwyr o'r fflw ond gall cymhlethdodau godi (yn arbennig mewn rhai ifanc iawn, yr henoed, merched beichiog a phobl â rhai cyflyrau meddygol). Gall hyn achosi salwch difrifol neu hyd yn oed farwolaeth. Oherwydd y gwendid cynyddol hwn, rydyn ni'n targedu'r grwpiau hyn ac yn eu hannog i dderbyn y cynnig o frechiad am ddim.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n adolygu effeithlonrwydd ymgyrchoedd brechu drwy edrych ar y canran o bobl cymwys sydd wedi'u brechu. Yn ystod misoedd y gaeaf, pan fydd fflw'n gyffredin, rydyn ni'n edrych ar rai o'r canrannau hyn yn wythnosol. Anogir aelodau o'n staff hefyd i dderbyn y cynnig o frechiad am ddim. Mae hyn oherwydd bod aelodau staff llinell flaen yn fwy tebygol o gael eu hamlygu i fflw ac os bydd niferoedd mawr o'n staff yn sâl, byddai hyn yn cael effaith difrifol ar ein gwasanaethau.

Yn 2016/17, roedd y nifer gafodd brechiad y fflw mewn grwpiau mewn risg arbennig yn dilyn haint, yn cynyddu ychydig ond roedd y canran o'n staff oedd wedi'u brechu'n cynyddu'n sylweddol ac, yn dilyn dilysu yn fwy na lefel y targed o 50%.

Nifer o frechiadau'r fflw yn genedlaethol (brasamcan ffigyrau 2016/2017, angen eu dilysu a byddan nhw bron yn sicr yn cynyddu)



Cymhariaeth Perfformiad Misol Mawrth 2016 i 2017

Rhif Mesur LIC	Mesur Perfformiad	Targed	Maw 16	Maw 17	Oedden ni'n gwella neu'n cynnal?
16	Cyfradd cadarnhad labordy o achosion clostridium difficile i bob 100K o'r boblogaeth (Nifer yr Achosion a ddanqoswyd)	28	44.75	27.6	
31/32	Oedi wrth trosglwyddo gofal Gwella	Improve	85	72	
56	Cleifion yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth (RTT)	95%	88.2%	90.5%	
57	Cleifion yn aros mwy na 36 wythnos am driniaeth (RTT)	0	2,682	975	
58	Cleifion yn aros llai na 8 wythnos am ymyrraeth ddiagnostig benodol	0	3,484	2,491	
59	Cleifion yn aros am ddilysiant -oedi ar ôl eu dyddiad targed	Reduce	24,938	22,960	
64	% o gleifion yn aros < 4 awr ym mhob adran D&A hyd nes cael eu trosglwyddo, derbyn neu ryddhau	95%	76.8%	79%	
65	% o amseroedd ymateb ambiwlans brys i alwadau categori coch hyd at ac yn cynnwys 8 munud	65%	62.6%	78.9%	
66	Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans dros awr o amser	0	483	151	

Cyflyrau cronig


Mae nifer mawr o bobl yng Ngwent yn byw gyda chyflyrau cronig fel clefyd y galon, epilepsi, diabetes a chlefyd y frest. Weithiau, mae'r cyflyrau hyn yn gwaethygu ac efallai y bydd pobl felly angen mynd i mewn i ysbyty ar gyfer gofal brys. Mae'r achosion hyn yn amharu ar fywydau pobl a'u teuluoedd a gallan nhw arwain at arosiadau hir mewn ysbytai.

Fodd bynnag, os bydd pobl yn cael y wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol i reoli eu cyflyrau a hefyd cefnogaeth dda yn y gymuned gan eu Meddygon Teulu, timau nyrsio, asiantaethau gwirfoddol a nifer o wasanaethau eraill, mae'n bosibl y byddan nhw'n gallu osgoi gwaethygu'r cyflwr ac amledd y troeon y bydd yn rhaid iddyn nhw fynd i mewn i ysbytai.

Rydyn ni'n monitro'r derbyniadau a'r ail dderbyniadau hyn i ddangos pa mor dda rydyn ni'n perfformio yn ein darpariaeth ni a chymorth arall i'r grŵp hwn o bobl yn y gymuned.

Er waethaf poblogaeth sy'n heneiddio, yn 2016/17 mae'r gyfradd o dderbyniadau ac ail dderbyniadau brys i ysbytai o fewn blwyddyn ar gyfer 8 cyflwr cronig wedi aros yn sefydlog i bob pwrpas.

Derbyniadau ac Ail Dderbyniadau ar gyfer 8 Cyflwr Cronig (i bob 100,000 o bobl)



Ffynhonnell– Papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

derbyniadau

ail dderbyniadau

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Ysmygu

Ysmygu yw'r cyfrannwr mwyaf i ystod eang o glefydau, y gellir ei osgoi. Mae rhoi'r gorau i ysmygu'n gwneud gwahaniaeth sylweddol a mesuradwy i iechyd person.

Rydyn ni'n monitro'r nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu fel canran o ysmygwyr yn ein poblogaeth. Mae prawf anadl syml i fesur lefelau carbon monocsid, yn rhoi mesur gwrthrychol syml o statws ysmygu. Rydyn ni hefyd wedi cyfnerthu ein menter "Gwneud Cyfrif o bob Cyswllt" gyda'r nod o symud ein hased mwyaf - ein gweithlu - i gynnig cyngor syml ac amserol ar faterion fel ysmygu i'r cleifion y maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw'n ddyddiol.

Roedd y canran o frasamcan poblogaeth ysmygu Gwent a gafodd driniaeth gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu'r GIG, yn cynyddu'n sylweddol, ond bydd yn is na'r targed o 5% yn 2016/2017.

% o boblogaeth ysmygu a gafodd driniaeth gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu'r GIG




ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG

Nid oedd ffigyrau ar gyfer chwarter 4 2016/17 ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae'r graff uchod yn cymharu perfformiad dros chwarteri 1 i 3 i ddangos y duedd blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Roedd y canran o ysmygwyr a gafodd driniaeth gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu'r GIG ac a oedd yn pasio'r prawf anadl i gadarnhau iddyn nhw roi'r gorau i ysmygu yn codi ac yn uwch na'r targed o 40%.

% o ysmygwyr a gafodd driniaeth gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu'r GIG ac sydd wedi rhoi'r gorau'n llwyddiannus



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG

Nid oedd ffigyrau ar gyfer chwarter 4 2016/17 ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae'r graff uchod yn cymharu perfformiad dros chwarteri 1 i 3 i ddangos y duedd blwyddyn ar ôl blwyddyn.


Brechiadau Plentyndod

Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau atgoffa cadarn i geisio hybu'r nifer o ystod eang o frechiadau plentyndod. Rydyn ni hefyd yn hyrwyddo ac yn cyfranogi mewn hysbysebu a mentrau ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Mae llwyddiant y nifer sydd ar neu'n uwch na'r lefel o 95% ymhlith y grwpiau perthnasol o blant, ar y lefel angenrheidiol i sicrhau bod cymunedau'n cael eu hamddiffyn rhag achosion. Yn y blynyddoedd blaenorol, defnyddiwyd y gyfradd ar gyfer ystod o frechiadau mewn plant 1 a 2 oed fel y dangosydd cyffredinol ac roeddem yn cyrraedd y targed yn y mwyafrif o feysydd. Mae Llywodraeth Cymru'n awr yn defnyddio'r cyfraddau o frechiadau arferol yn 4 oed fel y dangosydd cyffredinol ac ,fel y gwelir oddi wrth y siart, rydyn ni eto i gyrraedd yn gyson y cyfraddau uchaf o frechiadau.

Yn 2017/18, bydd y ffocws ar weithio gyda phartneriaid o fewn y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gofal sylfaenol i wella'r nifer o imiwneiddiadau mewn oed cynradd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y Bwrdd Iechyd, er mwyn cyrraedd y safon o 95% o frechiadau.

Nifer chwarterol o imiwneiddiadau plant ar gyfer plant 4 oed



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Dos gyfnerthol cyn-ysgol 4_yn-1

Dos gyfnerthol hib/ menc

Ail ddos MMR

Gofal Diogel


Cyfraddau Heintiau Cleifion

Rydyn ni'n ystyried diogelwch ein cleifion yn hynod ddifrifol. Mae hyn yn golygu gwneud popeth y gallwn ei wneud i leihau'r risg o gael haint pan fyddan nhw dan ein gofal yn yr ysbyty a gartref.

Ystyrir atal heintiau fel busnes pawb ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gefnogi staff wrth atal heintiau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ymagwedd dim goddefgarwch tuag at heintiau a geir yn ein hysbytai. Caiff pob achos ei ymchwilio'n drylwyr a chymerir y camau angenrheidiol.

Yn 2016/2017, roedden ni'n cyrraedd y targed gostwng a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer *Clostridium Difficile* ond ddim ar gyfer achosion o *Staph Aureus* bacteraemia. Fodd bynnag, roedd ein cyfraddau *Staph Aureus* bacteraemia yr isaf yng Nghymru.

Nifer misol o achosion o C Difficile a Staph Aureus bacteraemia



Ffynhonnell – Iechyd y Cyhoedd Cymru

Rhybuddion a hysbysiadau diogelwch cleifion

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Atebion Diogelwch Cleifion ar lefel genedlaethol i gyhoeddi Rhybuddion a Hysbysiadau i'r GIG yng Nghymru.


RHYBUDD: Mae hwn angen gweithredu diymdroi gyda dyddiad gweithredu penodol i ddelio â phroblemau/risgiau sylweddol sydd wedi'u nodi.

HYSBYSIAD: Cyhoeddi hwn i sicrhau bod sefydliadau a holl staff gofal iechyd perthnasol yn ymwybodol o faterion diogelwch cleifion posibl ar y cyfle cyntaf.

Rydyn ni wedi ymrwymo i weithredu argymhellion Atebion Diogelwch Cleifion Cymru o fewn yr amserlenni a nodwyd ac olrhain unrhyw ddiffygion i gyflawni'r nod hwn.

Mae camau i ddatrys rhybuddion a hysbysiadau diogelwch cleifion yn aml yn gymhleth. Er enghraifft, mae atebion yn aml angen i ni wneud newidiadau mawr i'n hadeiladau na ellir eu gwneud yn gyflym. Oherwydd hyn, mae nifer o'r rhybuddion a hysbysiadau diogelwch a fethwyd yn gyffredin i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Er hyn, rydyn ni'n cymryd nifer o gamau i sicrhau cyflawni cydymffurfiant.

Nifer o rybuddion a hysbysiadau diogelwch lle methwyd y dyddiad cau



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG rhybuddion hysbysiadau

Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw


*Sylwer bod y bariau graff uchod yn berthnasol i gyfanswm o **dri** hysbysiad ac **un** rhybudd - nid ydyn nhw'n cynrychioli rhybuddion a hysbysiadau newydd.

Digwyddiadau Difrifol ac Achlysuron "Byth"

Tynnir sylw ein Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Gweithredol at bob digwyddiad difrifol ac achlysur "byth" (digwyddiad difrifol y gellid yn hawdd bod wedi'i atal) ac anfonir adroddiad at Lywodraeth Cymru o fewn 24 awr. Cynhelir ymchwiliad llawn a nodi camau i osgoi iddo ddigwydd eto.

Datblygir cynllun i gyflwyno unrhyw newid angenrheidiol a'i weithredu. Mae'r cynlluniau hyn bob amser yn cynnwys amserlenni hynod heriol. O ganlyniad, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd ychydig yn hwy nag a gynlluniwyd i gyflawni'r holl newidiadau angenrheidiol. Ond rydym yn monitro ac adrodd ar ein cydymffurfiant gyda'r dyddiadau cau hyn ac, fel y gwelir yn y siart isod, rydyn ni'n gweithio i gynyddu ein cyfraddau cydymffurfio.


O'r Digwyddiadau Difrifol oherwydd sicrwydd o fewn y mis, mae'r % oedd wedi'u sicrhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni



Ffynhonnell – papur bwrdd gweithredu GIG Cymru

Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Nifer y Digwyddiadau "Byth" newydd:



Ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Gofal Urddasol


Mae canslo llawdriniaeth, yn arbennig ar fyr rybudd, yn achosi anghyfleustra mawr i glaf a gall ymestyn cyfnod o bryder ac anghysur.

Rydyn ni'n gweithio'n galed i osgoi canslo, ond os bydd amgylchiadau (fel lefelau uchel o alw am ofal a thriniaeth frys) yn gwneud i ni fethu ag osgoi hyn, rydym yn ceisio ail drefnu cynted ag sy'n bosibl.

Rydyn ni'n monitro ein perfformiad wrth ail drefnu yn dilyn canslo ac yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Yn 2016/2017, dros fisoedd y gaeaf pan oedd pwysau cynyddol oherwydd argyfyngau, roedd ein perfformiad yn erbyn y mesur hwn yn gostwng ychydig ond mae wedi dechrau adfer a pharhau gyda'r duedd ar i fyny'n gyffredinol.

% y cleifion oedd wedi cael eu triniaeth wedi'u ohirio fwy nag unwaith ac wedi cael eu triniaeth o fewn 14 diwrnod neu ar ddyddiad cyfleus cyntaf i'r claf



Ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredol GIG Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Gofal Effeithlon

Oedi wrth drosglwyddo gofal


Cydnabyddwn fod gennym gyfraddau uchel o gleifion sy'n dioddef oedi wrth eu rhyddhau neu eu trosglwyddo i amgylchedd gofal gwahanol.

Mae hon yn broblem sy'n gyffredin ar draws y DU. Mae ymdrech sylweddol yn cael ei gwneud i leihau nifer a hyd yr oedi y gellir beio iechyd a gofal cymdeithasol amdano. Fodd bynnag, rheswm mawr dros oedi yw dewis cleion a phroblemau teuluol wrth ddewis cartref nyrsio neu gartref preswyl neu'r aros am le.

Mae gennym Bolisi Dewis Llety i gefnogi cleifion a'u teuluoedd yn well wrth wneud penderfyniadau am eu gofal yn y dyfodol ac o ganlyniad I hyn gostwng yr oedi. Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i ddelio â phroblemau oedi oherwydd diffyg llety addas.

Yn 2016/17, roedd y duedd yng nghyfradd fisol cleifion â phroblemau iechyd meddwl yn lefel ond ar gyfer cleifion â phroblemau corfforol, roedd yr oedi wrth drosglwyddo gofal yn gostwng ychydig.

Cyfraddau misol i bob 10,000 o bobl Gwent sy'n dioddef oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal (iechyd meddwl = pob oed, dim iechyd meddwl = cleifion 75 oed a throsodd)



ffynhonnell – Ystadegau Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw mh dim mh


Cyfraddau Marwoldeb

Er bod marwolaeth ar ddiwedd arhosiad ysbyty weithiau'n anochel, mae'n hanfodol ein bod yn monitro ac yn adrodd yn agored y cyfraddau i sicrhau bod y risg o farwolaethau y gellir eu hosgoi'n cael eu gostwng i bob claf.

Y 'gyfradd farwolaeth grai' yw'r canran o'n cleifion sy'n marw yn dilyn cael eu derbyn i un o'n hysbytai. Rydyn ni'n monitro'r cyfraddau hyn i bob claf, ond, yn genedlaethol, y mesur yw'r gyfradd i gleifion o dan 75 oed.

Yn 2015/17 roedd y gyfradd farwolaeth grai ar gyfer y cleifion hyn (dros 12 mis) yn y Bwrdd Iechyd yn aros yn sefydlog ac roedd yn gyson is na'r cyfartaledd yn y byrddau iechyd eraill yng Nghymru.

Cyfradd marwoldeb crai mewn cleifion <75 oed



Ffynhonnell- icompare - CHKS

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw abuhb cymru

Cod Diagnosis Safonol


Mae'r wybodaeth fanwl sy'n llunio hanes a chynnwys y cofnod clinigol am arhosiad claf mewn ysbyty'n hanfodol i reoli ac optimeiddio'r gofal y mae'r claf yn ei dderbyn yn ystod yr arhosiad hwnnw ac unrhyw un arall yn y dyfodol. Fodd bynnag, os bydd angen defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer dadansoddi, cynllunio ac adrodd yn ôl, rhaid ei chategoreiddio a'i chofnodi fel codau clinigol.

Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud cynted ag sy'n bosibl ar ddiwedd arhosiad claf mewn ysbyty fel bod y wybodaeth hon ar gael ar gyfer ystod o ddefnyddiau, fel cynllunio a chostio gwasanaethau. Oherwydd hyn, rydyn ni'n monitro ac yn adrodd am brydlondeb y codio'n fanwl.

Cynt, y targed oedd y byddai 95% o gleifion yn cael eu diagnosis wedi'i godio o fewn 3 mis ar ôl eu rhyddhau ond mae'r cyfnod hwn yn fis ar ôl rhyddhau erbyn hyn.

Yn 2016/17, roedd y canran o godau diagnosis safonol dilys 1 mis ar ôl yr achos yn byrhau.

% cod diagnosis safonol dilys 1 mis ar ôl achos (targed = 95%)



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru


Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Astudiaethau Ymchwil

Mae gwaith ymchwil yn hanfodol er mwyn gwella'r gofal rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer cleifion a deilliant eu gofal a'u triniaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn ystod eang o waith ymchwil.

Mae'r nifer o astudiaethau portffolio Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi cynyddu'n gyson ac yn sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Nifer yr Astudiaethau Portffolio Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Ymchwil Clinigol



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Ffigyrau ar gyfer chwarter 4 2016/2017 wedi'u hallosod o chwarteri 1-3


Gofal Amserol

Mynediad at Feddygon Teulu

Mae'n bosibl y bydd mynediad at apwyntiad Meddyg Teulu (MT) ar amser cyfleus yn anodd, yn arbennig i bobl sy'n gweithio'n llawn amser neu gydag ymrwymadau heriol teulu neu eraill. Mae ymestyn oriau agor yn gwella hyn.

Roedd y canran o feddygfeydd oedd yn agored o fewn 1 awr i'r oriau craidd dyddiol yn cynyddu yn 2016 ac mae bron yn 100%.

Canran y meddygfeydd sy'n agored yn ystod oriau craidd dyddiol neu o fewn awr i oriau craidd dyddiol




ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Yn y blynyddoedd cynt, roedd y canran o feddygfeydd oedd yn cynnig apwyntiadau rhwng 5pm a 6.30pm o leiaf **2** noson yr wythnos yn aros yn sefydlog ar 100%.

Ail-osodwyd y targed i'r canran o feddygfeydd sy'n cynnig apwyntiadau rhwng 5pm a 6.30pm o leiaf **5** noson yr wythnos. Roedd y perfformiad yn 2016 yn agos iawn i gyflawni'r targed

Canran o feddygfeydd sy'n cynnig apwyntiadau dyddiol rhwng 17:00 a 18:30 o'r gloch




ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Fy Iechyd Ar-lein

Mae'r gwasanaeth 'Fy Iechyd Ar-lein' yn galluogi pobl i drefnu apwyntiadau ac archebu ail bresgripsiynau (er enghraifft trefnu apwyntiad meddyg pan fydd y feddygfa ynghau). Mae'r gwasanaeth ar-lein hwn yn cynnig gwell cyfleustra i gleifion.

Mae'r canran o feddygfeydd sy'n cynnig trefnu apwyntiadau ac ail bresgripsiynau drwy 'Fy Iechyd Ar-lein' wedi cynyddu'n gyson.

% sy'n cynnig trefnu apwyntiadau a % y rhai sy'n cynnig ail bresgripsiynau (o feddygfeydd sydd wedi trefnu i ddefnydd 'Fy Iechyd Ar-lein')



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru


Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw trefnu apwyntiadau
ail bresgripsiynau

Gofal Deintyddol

Mae mynediad at ddeintyddiaeth GIG yn agwedd bwysig o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Mae'r canran o bobl Gwent sy'n cael eu trin gan ddeintydd GIG yn y 24 mis diwethaf wedi aros yn sefydlog ar tua 56-57%.

Cleifion sydd wedi'u trin gan ddeintydd GIG yn y 24 mis diwethaf fel % o'r boblogaeth LHB



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Nid oedd ffigyrau Hydref 2016 i Fawrth 2017 ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad. Mae'r graff uchod yn dangos y duedd blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Amseroedd aros atgyfeirio MTon

Gall yr amser aros rhwng atgyfeiriad gan MT a mynediad i apwyntiad claf allanol, ymchwiliad a thriniaeth achosi pryder ac ansicrwydd.


Rydyn ni'n monitro ac yn adrodd am yr amser y mae cleifion yn aros a cheisiwn leihau'r amseroedd aros.

% o gleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am driniaeth (RTT)

Er nad oedd y canran o gleifion oedd yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth (RTT) yn 2016/17 yn cyrraedd y gôl o 95%, roedd perfformiad yn gyson uwch na'r targed ambr (rhaid bod o fewn 10% o'r gôl felly = 81%).

Mae gwella'r perfformiad hwn yn bryder cynyddol i'r Bwrdd Iechyd.

Canran y clefion gydag amser atgyfeirio i driniaeth yn llai na 26 wythnos




Ffynhonnell – data misol a gyflwynwyd I Lywodraeth Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw misol targed ambr

Nifer RTT na chyrhaeddodd y 36 wythnos

Roedd y nifer o glefion oedd yn aros yn hwy na 36 wythnos am driniaeth yn aros yn weddol sefydlog drwy gydol 2016/2017 mwy neu lai, ond maen nhw wedi gostwng yn sylweddol yn 2 fis olaf y flwyddyn ariannol.

Nifer y clefion sydd wedi bod yn aros yn hwy na 36 wythnos am driniaeth




Ffynhonnell- Ystadegau Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Ma

% y cleifion sy'n aros llai na 8 wythnos am brofion diagnostig penodol.

Roedd y canran o gleifion sy'n aros llai nag 8 wythnos am brofion diagnostig penodol yn gostwng yn 2015/16:

Nifer y bobl sy'n aros am brofion diagnostig fesul band amser a % sy'n aros llai na 8 wythnos



Ffynhonnell – Ystadegau Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

8 wythnos

8 wythnos

Canran < 8 wythnos


Apwyntiadau dilynol

Cynt, roedd prif ffocws amseroedd aros cleifion allanol ar aros am apwyntiadau newydd neu gyntaf. Rydyn ni'n awr yn canolbwyntio ar osgoi cleifion sydd angen apwyntiadau dilynol yn gorfod aros yn hir.

Cyn mis Hydref 2016, dim ond monitro ffigyrau cleifion sy'n dal i aros am dderbyn apwyntiad (heb drefnu) oedden ni'n gallu ei wneud ond, o fis Hydref 2016 ymlaen, rydym wedi cynnwys cleifion sydd wedi cael apwyntiad ond nad sydd eto wedi'u gweld yn yr adran cleifion allanol (heb drefnu ac wedi trefnu).

Ym mis Hydref 2016, roedd 42,436 o bobl yn aros ac mae'r nifer hwn wedi gostwng yn sylweddol i 32,545 (-23%) ym mis Mawrth 2017.

Nifer o oedi mewn apwyntiadau dilynol dros y dyddiad targed



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Oedi mewn apwyntiadau dilynol y tu hwnt i ddyddiad targed Cymru

Ffigyrau nawr yn cynnwys pobl sydd wedi derbyn apwyntiad

Gofal strôc

Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r safonau gwella ansawdd rydyn ni'n eu dilyn wrth gynnig gwasanaethau aciwt i gleifion sydd wedi cael strôc. Mae'r safonau'n disgrifio'r pethau ddylai ddigwydd o fewn cyfnodau amser penodol.

4 awr: Derbyniad uniongyrchol i Uned Strôc Aciwt arbenigol a Sgrinio i sicrhau bod cleifion yn gallu llyncu ac na fyddan nhw'n tagu o gael bwyd a diod


12 awr: Sgan Tomograffi gyda chyfrifiadur (CT)

24 awr: Asesiad gan Ymgynghorydd Strôc; Asesiad gan Nyrs Strôc; Asesiad gan Therapydd

72 awr: Asesiad llyncu ffurfiol; asesiad Therapi Galwedigaethol; asesiad Ffisiotherapi; asesiad cyfathrebu Therapi Iaith a Lleferydd

Tua diwedd 2015, fel rhan o ail lunio llwybr gofal i gleifion sydd wedi cael strôc, roedden ni'n canolbwyntio ar ein gwasanaethau strôc brys o fewn Uned Strôc Gor-aciwt newydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent a agorwyd ym mis Ionawr 2016. Gellir gweld y gwelliannau sylweddol a wnaed yn ein perfformiad yn y graff isod.

% cydymffurfiant gyda'r mesurau gwella ansawdd i bobl sydd wedi cael strôc



ffynhonnell-

ffigyrau a gynhyrchwyd gan yr Uned Gyflawni


Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw
4 awr / 12 awr / 24 awr / 72 awr

Gofal brys

Mae effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr holl wasanaethau brys yn perthyn yn agos. Os bydd yn rhaid i griwiau ambiwlans aros am gyfnod hir i drosglwyddo claf yn D&A oherwydd tagfa a chleifion yn aros yn hir, nid ydyn nhw ar gael i ateb galwadau brys.

Mae pobl yn dal i aros am gyfnodau hir yn ein hadrannau D&A cyn eu rhyddhau, eu derbyn neu eu trosglwyddo. Mae'r gwasanaeth hwn yn achos pryder i'r Bwrdd Iechyd.


% o gleifion newydd nad sy'n treulio mwy na 4 awr yn D&A ((targed 95% - perfformiad ambr >90%))



Ffynhonnell- adroddiad ISD

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Abuhb targed


Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy yn D&A:



Ffynhonnell- adroddiad ISD

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw


% ymatebion galwadau coch ambiwlans o fewn 8 munud (targeted 65%)



Ffynhonnell- Ystadegau Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Newid sylweddol yn y mesur - Hyd 2015 Gwent targed

Nifer o drosglwyddiadau ambiwlans D&A sydd dros 1 awr



Ffynhonnell– ffigyrau dyddiol a gyhoeddwyd gan WAST a LIC “cerdyn sgorio cytbwys”

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw


Gofal cancer

Rydyn ni’n cynnal ymrwymiad cadarn i ddarparu gofal rhagorol i gleifion cancer ac agwedd bwysig o’r gofal hwn yw mynediad prydlon i wasanaethau cancer. Bydd ffocws yn parhau ar gynnal a gwella perfformiad dros y deuddeg mis nesaf ym maes amseroedd aros cancer.

Ar gyfer cleifion a atgyfeirir atom gydag amheuaeth o ganser, ein nod yw cael diagnosis a dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod. Y targed cenedlaethol yw gwneud hyn i o leiaf 95% o gleifion. Roedd perfformiad ar ddechrau’r flwyddyn yn annerbyniol o isel a gwnaed ymdrech sylweddol i ostwng yr amser y mae’r cleifion hyn yn aros.

Mae’r gwaith hwn wedi helpu i sichrau cynnydd cyson a sylweddol dros 4 mis diwethaf 2016/2017, yn y canran o gleifion sy’n dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod.

% o gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio fel amheuaeth o ganser ar frys ac yn cael eu gweld o fewn 62 diwrnod (targed 95%)




Ffynhonnell– Ystadegau Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw 62 diwrnod targed

Mae rhai cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio atom am resymau eraill yn cael diagnosis canser yn y pen draw. Pan fydd hyn yn digwydd, ceisiwn ddechrau eu triniaeth o fewn 31 diwrnod i'r diagnosis.

Y targed cenedlaethol yw cyflawni hyn i 98% o gleifion. Roedden ni'n methu cyflawni hyn yn y mwyafrif o fisoedd yn 2016/2017 ond mae perfformiad wedi gwella ar ddiwedd y flwyddyn a chyflawnwyd y targed.

% o gleifion a atgyfeiriwyd fel amheuaeth o ganser nad oedd yn achosion brys ac a welwyd o fewn 31 diwrnod (targed 98%)



Ffynhonnell – Ystadegau Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw 31 diwrnod targed

Iechyd Meddwl

Mae'r gofal a gynigir i bobl â phroblemau iechyd meddwl yr un mor bwysig â'r gofal a ddarperir i bobl â phroblemau iechyd corfforol.


Er ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau mewn ysbytai i bobl ag anawsterau iechyd meddwl, rydym wedi symud gwasanaethau i leoliadau gofal sylfaenol a chymuned.

Yn 2016/17, gwelwyd cynnydd yn y canran o asesiadau gan y Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) a gynhelir o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr atgyfeiriad.

Gwelwyd hefyd gynnydd yn y canran o ymyraethau therapiwtig o fewn 56/28 diwrnod ar ôl yr asesiad.

Ym mis Mawrth 2017, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd lefelau targed i'r ddau fesur.

% o asesiadau gan LPMHSS a gynhaliwyd o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr atgyfeiriad A % yr ymyraethau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn 28 diwrnod ar ôl asesiad LPMHSS:



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Asesiad < 28 diwrnod o'r atgyfeiriad

Targed asesiad/ymyrraeth

Ymyrraethau < 28 diwrnod ar ôl asesiad

Gofal Personol


Nifer y galwadau at linellau cymorth cenedlaethol (C.A.L.L./Dementia/DAN)

Er nad ydym yn rheoli'n uniongyrchol y gwasanaethau hyn, rydyn ni'n derbyn gwybodaeth am y niferoedd o bobl yng Ngwent sydd wedi galw'r llinellau cymorth cenedlaethol hyn. Mae'r wybodaeth hon yn helpu wrth wneud penderfyniad am dargedu gwasanaethau i sicrhau eu bod wedi'u llunio i ateb anghenion ein pobl leol.

Y llinellau rydyn ni'n derbyn ffigyrau ganddyn nhw yw:

- **C.A.L.L. – Llinell Gyngor a Gwrando yn y Gymuned** (Cynnig cefnogaeth a gwybodaeth/ llenyddiaeth emosiynol ar Iechyd Meddwl a materion perthnasol i bobl Cymru)
- **Llinell Gymorth Dementia Cymru** (cynnig cefnogaeth emosiynol i unrhyw un, o unrhyw oed, sy'n gofalu am rywun gyda dementia ynghyd ag aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau. Bydd y gwasanaeth hefyd yn helpu ac yn cefnogi'r rhai sydd wedi cael diagnosis o dementia)
- **DAN 247** (linell gymorth cyffuriau ac alcohol Cymru)

Galwadau i linellau cymorth cenedlaethol



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

galwad llinell gymorth galwadau

dementia llinell gymorth galwadau

dan llinell gymorth galwadau

Iechyd Meddwl

Mae'r gofal a gynigir i bobl â phroblemau iechyd meddwl yr un mor bwysig â'r gofal a ddarperir i bobl â phroblemau iechyd corfforol.


Mae'r gwasanaethau personol gyda phobl yn rhan o wneud y penderfyniad a dogfennu'r gofal fyddan nhw'n eu derbyn, yn hanfodol i gyflawni'r safonau gofal uchaf.

Drwy gydol y flwyddyn, roedd y canran o gleifion (pob oed) oedd yn derbyn Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) wedi'i gwblhau ar ddiwedd bob mis yn uwch na'r targed o 90%.

Yn y mwyafrif o fisoedd 2016/17, roedd 100% o gleifion yn derbyn eu hadroddiad asesiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl yr asesiad.

Drwy gydol 2016/17, roedd gan ein holl ysbytai drefniadau i sicrhau bod eiriolaeth ar gael i bob claf cymwys (targed 100%).


% y cleifion (pob oed) â Chynllun Gofal a Thriniaeth wedi'i gwblhau ar ddiwedd bob mis (targed 90%)



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw


% y cleifion sydd wedi derbyn eu hadroddiad asesiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl eu hasesiad (targed 100%)



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

% ein hysbytai gyda threfniadau i sicrhau bod eiriolaeth ar gael i bob claf cymwys (targed 100%)



ffynhonnell – papurau bwrdd gweithredu GIG Cymru


Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Ein Staff a'n Hadnoddau

Methu Apwyntiadau

Pan na fydd pobl yn ymddangos ar gyfer apwyntiad claf allanol heb roi gwybod i ni, mae'n gwastraffu amser cleifion allanol y gellid bod wedi'i ddefnyddio ar gyfer person arall. Rydym wedi cyflwyno system neges atgoffa ac mae hwn yn cael ei dreiglo ar draws ein gwasanaethau. Mae'r gostyngiad yn y canran o'n cleifion nad sy'n ymddangos ar gyfer apwyntiadau a welwyd tua diwedd 2015/16 wedi'i gynnal a'i ostwng hyd yn oed yn fwy yn 2016/2017.

Cyfraddau DNA apwyntiadau newydd a dilynol ar gyfer arbenigeddau dewisol



Ffynhonnell- adroddiad ISD


Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

apwyntiadau dilynol apwyntiadau newydd

Gwerthusiadau perfformiad

Rydyn ni wedi ymrwymo i werthuso perfformiad ac adolygu datblygiad (PADR) pob aelod o'r staff bob blwyddyn. Er nad ydym eto wedi cyflawni'r targed o 85%, roedd y cydymffurfiant ym mis Mawrth yr uchaf a fu mewn 2 flynedd.

% y staff sydd wedi cael PADR yn y 12 mis blaenorol – pob adran a gwasanaeth



Ffynhonnell– adroddiadau mewnol a ffigyrau wythnosol


Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw

Salwch staff

Rydym wedi ymrwymo i gynnig pob cefnogaeth angenrheidiol i sicrhau bod gennym weithlu ffit a iach. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae gennym gyfrifoldeb dros y bobl sy'n gweithio i ni ond mae'r un mor bwysig ar gyfer rhedeg yn llyfn y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'r bobl dan ein gofal.

Yn 2015/16, roedd y canran o absenoldebau staff oherwydd salwch yn uwch na'n targed o 4.99%, ond mae wedi bod yn is na lefel targed ambr o 5.49% ac eithrio misoedd Ionawr a Chwefror 2017. Mae'r rhain yn fisoedd lle byddwn yn aml yn gweld absenoldebau staff yn uchel oherwydd salwch.

% o absenoldebau staff oherwydd salwch



Ffynhonnell– safle mewnwyd ABUHB

Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw Ebr Mai Meh Gorff Awst Medi Hyd Tach Rhag Ion Chwef Maw % oriau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch Misol Treiglo Perfformiad ambr

Ymgysylltu a Gweithio mewn Partneriaeth

Yn 2016/17, rydym wedi atgyfnerthu ein gweithgareddau ymgysylltu a disgrifir y rhain isod.

Gweithio gydag Awdurdodau Lleol: Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu ymhellach drefniadau sefydlog gyda'r pum Awdurdod Lleol yn ein hardal, ynghyd â Phowys. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar ystod o newidiadau a datblygiadau gwasanaethau. Mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn chwarae rolau gweithredol mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol, yn mynychu trefniadau craffu Awdurdodau Lleol. Hefyd, mae gennym gyfres o gyfarfodydd ymgysylltu gyda'r Cyngor Llawn neu Bwyllgorau Craffu pob Awdurdod Lleol i ddarparu cyflwyniadau diweddar a thrafod yn agored unrhyw faterion allweddol neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio fel prif bartner yn y Bartneriaeth Gwent Mwyaf wrth weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Rydym wedi sefydlu Fforwm Partneriaeth a hefyd Grŵp Arweinyddiaeth gyda chefnogaeth ystod o raglenni gwaith a threfniadau cefnogi a chynghori.

Gweithio gydag Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau): Blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf oedd gweithio'n rhagweithiol gydag ACau ac ASau i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn ymwybodol o ymagweddau allweddol a datblygiadau'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau cyfarfodydd briffio rheolaidd ar gyfer ACau ac ASau sy'n cyflwyno diweddariad byr ar feysydd diddordeb a datblygiad o raglen waith y Bwrdd Iechyd. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd un i un rhwng ACau a'r Prif Weithredwr. Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd hefyd yn cyfarfod ag ACau'n rheolaidd. Yn 2016/17, roedd y Bwrdd Iechyd yn ymateb i 354 o ymholiadau ysgrifenedig oddi wrth ACau.

Gweithio gyda Heddlu Gwent a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (PCC)



GwentPCC @GwentPCC · 2h

Productive meeting with @AneurinBevanUHB this morning around how public services can work together to provide greater benefits for citizens

Gwent PCC

Cyfarfod cynhyrchol gydag @AneurinBevanUHP y bore yma am sut gall gwasanaethau cyhoeddus gydweithio i ddarparu gwell buddion i'r bobl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n bositif gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent. Mae darparu hwb aml-asiantaeth i gydlynw cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau (Cyswllt Gwent) yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Datblygu ymagwedd Gwent i 'frysbennu stryd'.
- Gweithredu protocolau ar gyfer archwiliadau lles a chleifion sydd wedi dianc o ysbytai.
- Adolygu trefniadau Adran 135.
- Datblygu cynnig gyda'r pum Awdurdod Lleol ar gyfer cludiant penodol i gleifion/ defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.
- Cydweithio i ddatblygu Hybiau Diogelwch Aml-Asiantaeth (MASH).
- Cyflwyno gwobrau Cyd Ddewrder.
- Adolygu rôl a pholisïau sy'n tanategu arfer nyrsio mewn ystafelloedd dalfa.
- Gweithio mewn cydweithrediad i gyflawni'r ddyletswydd ATAL ac ymateb i'r strategaeth CYSTADLEUAETH.

Gweithio gyda'r Trydydd Sector: Mae trefniadau hir sefydledig gyda'r trydydd sector yn ein hardal, yn arbennig drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen. Mae'r grwpiau hyn yn chwarae rhan werthfawr yn cefnogi ein agenda ymgysylltu ac yn chwarae rôl weithredol yng Ngrŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod o brosiectau mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector a gwirfoddolwyr. Dyma rai enghreifftiau:

- Gwasanaeth Cyfeillio Red Robins Age Cymru Gwent yn Ysbyty Gwynllyw (SWH) ac Ysbyty Brenhinol Gwent (RGH), Casnewydd.
- Gwirfoddolwyr Blodau Haul GAVO - Cynnig cyfeillio, gweithgareddau grŵp a thrin gwallt ar y cyd gyda cholegau lleol yn Ysbyty Aneurin Bevan, Ysbyty Ystrad Fawr a Chanolfan Adnoddau Rhymni.
- C.H.A.a.T. (Gofyn a Siarad Cartrefi Gofal) - Mae'r gwirfoddolwyr yn aelodau o Gymdeithas Rhai wedi Ymddeol o GIG Gwent). Fel cyn gyflogai o'r GIG, maen nhw'n angerddol tuag at wella gofal i bobl sy'n byw mewn cartrefi nyrsio. Yn ystod 2016, roedd gwirfoddolwyr CHAAT yn siarad â dros 1,600 o drigolion a 350 o berthnasau. Ar ôl gwrandao ar adborth, cynhelir achlysur ymgysylltu gyda phobl hŷn, perthnasau a chartrefi gofal ym mis Ebrill i ystyried gweithgaredd mwy ystyrlon.
- Peilot C.H.A.a.T. ysbytai - Bydd gwirfoddolwyr Chat yn cefnogi peilot ar wardiau ysbytai i gefnogi pobl hŷn a'u perthnasau ar bwynt trawsnewid. Cytunwyd ar systemau atgyfeirio, taflenni gwybodaeth i gleifion ac adborth i brosesau'r ward. Mewn partneriaeth gyda'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn mae menter lle mae gwirfoddolwyr Chat yn siarad â phobl hŷn ar y gweill. Cynhelir trafodaethau pellach am wirfoddolwyr yn siarad â chleifion sy'n byw gyda dementia a'u perthnasau.

- Ffrind i Mi - cais llwyddiannus ar y cyd i dudalen 'syniadau' Her Technoleg Iechyd Cymru i ddatblygu gwasanaethau cyfeillio ar gyfer yr unig yn gymdeithasol. Mae hon yn fenter partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd, awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol, Coleg Gwent, Iechyd y Cyhoedd Cymru, SEWAHSP, NARPO, Cymdeithasau Tai, Age Cymru, SSAFA a Fforwm y Cyn Filwyr. Mae hon yn barod wedi gweld symudiad cymdeithasol ar y cyd i ddatblygu cymunedau trugarog.
- Gweithwyr Cefnogi Dementia – mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Alzheimer's, penodwyd 6 Gweithiwr Cefnogi Dementia (DSWs) i weithio ar draws ardaloedd NCN. Gan weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Asesu Cof, bydd y DSW's yn cefnogi pobl o amser y diagnosis. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect aml-asiantaeth a chytunwyd ar gynllun gweithredu drwy'r Bwrdd Dementia.
- Canolfan Blant Serennu a Sparkle – ystod eang o rolau gwirfoddolwyr yng Nghanolfan Blant Serennu, High Cross, Casnewydd.
- Cymuned Gardd Furiog Plasty Llanfrechfa, Cwmbrân fel rhan o raglen y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol (SCCC).

Gweithio gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned:

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (CIC), mudiad statudol annibynnol sy'n gweithredu fel llais i gleifion a'r cyhoedd. Mae hefyd yn warchotgi GIG ar gyfer pob agwedd o ofal a gwasanaethau.

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan wedi parhau i gynnig her adeiladol pan fydd angen ac wedi cynnig cefnogaeth ragorol i faterion newid gwasanaethau allweddol drwy gydol 2016/17. Rydyn ni'n rheolaidd yn derbyn cyngor gan y Cyngor Iechyd Cymuned ynglŷn ag ymgysylltu'n briodol gyda chleifion a'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Pwyllgor Gweithredu a Chyngor Llawn y Cyngor Iechyd Cymuned a hefyd yn cymryd rhan mewn achlysur Cyd Bwyllgor Cynllunio. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned hefyd yn darparu adroddiad i bob un o Gyfarfodydd Cyhoeddus y Bwrdd.



I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â:

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Tŷ Rhaglan, 6-8 Clos William Brown, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516 (mae peiriant ateb 24 awr)

E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu Digidol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i arwain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyblu ein dilynwyr Facebook a Twitter.

Cynhaliwyd cyfres o ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol proffil uchel drwy ein Tîm Cyfathrebu ond hefyd mewn partneriaeth gyda chyrff GIG eraill yng Nghymru a phartneriaid ehangach y gymuned e.e. Awdurdodau Lleol a chyrff y Trydydd Sector. Mae'r rhain wedi cynnwys ffocws arbennig eleni ar themâu iechyd meddwl a gofal sylfaenol.

Mae ein hymagwedd cyfathrebu 'digidol gynta' wedi parhau i ddatblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn y gorffennol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi gwybodaeth, lle nawr rydyn ni'n ymgysylltu a rhyngweithio'n weithredol gyda'n cleifion, y cyhoedd a budd-ddeiliaid drwy gyfryngau cymdeithasol. Gwneir hyn mewn amser real, drwy gwestiynau i'r cleifion a'r cyhoedd am wasanaethau, eu profiad presennol o'n gwasanaethau ac ansawdd eu gofal. Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi buddsoddi amser sylweddol yn cydlynw ac yn ymateb i ymholiadau cleifion a'r cyhoedd yn ddyddiol.



Yr hyn sydd wedi profi'n hynod o lwyddiannus eleni oedd ein defnydd o storïau fideo a hefyd darnau fideo i gefnogi ein datganiadau i'r wasg. O safbwynt ein darnau fideo, mae'r rhain wedi profi'n hynod lwyddiannus gyda'n staff a'r cleifion / cyhoedd ar gyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, mae un o'n ffilmiau fideo am waith ar un o'n Wardiau Dementia. Roedd tua 40,000 o bobl wedi'i gweld a rhannwyd hi dros 110,000 times - gyda dros 100 o sylwadau positif ar Facebook yn unig. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd Iechyd na allen ni fod wedi'i gael drwy ddulliau a chyfryngau traddodiadol.

Cyfathrebu Cynllun y Gaeaf

Roedd y Tîm Cyfathrebu hefyd yn parhau i hyrwyddo negeseuon pwysig i'r cyhoedd drwy ein hymgyrch 'Bod yn Ddoeth dros y Gaeaf' i ostwng y galw diangen ar wasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn ystod misoedd y gaeaf. Dosbarthwyd erthyglau i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i bwysleisio'r ymgyrch ac i gefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru 'Dewis Doeth'. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y pedwerydd

o'i fideos 'Dr Olivia'- gyda hwn yn canolbwyntio ar ddewis yn ddoeth o fewn gofal sylfaenol. Eto, cafodd broffil uchel ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r tîm wedi gweithio'n agos hefyd gyda Thîm Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y negeseuon pwysig hyn yn cael eu trafod gyda phobl yn ystod sesiynau ymgysylltu yn ardal y Bwrdd Iechyd. Hefyd, yn ystod mis Ionawr 2017, roedd holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn cydweithio i reoli'r negeseuon gaeaf a hefyd y cyfryngau yn ystod y mis pwysig hwn. Roedd hyn yn golygu ymdriniaeth proffil uchel cyson ar draws Cymru.

Yr Iaith Gymraeg

Rydyn ni wedi parhau i ymateb yn weithredol i 'Mwy na Geiriau'n Unig' - y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau iaith Gymraeg o fewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni hefyd wedi parhau i ddarparu ar gyfer y Safonau Iaith Gymraeg ar y Gorwel fydd yn cael eu cyflwyno gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg y flwyddyn nesaf.



Gweithio i Wella

Yn unol ag 'Egwyddorion Unioni' mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli cwynion o fewn rheoliadau 'Gweithio i Wella'.

Egwyddor tanategol Gweithio i Wella yw pryd bynnag y bydd pryderon yn cael eu mynegi am driniaeth a gofal, naill ai drwy gwyn, hawliad neu ddigwyddiad clinigol, gall y rhai sy'n cwyno ddisgwyl ein bod yn delio â hyn yn agored ac yn onest, eu bod yn cael ymchwiliad trylwyr a phriodol a chydnabyddiaeth brydlon ac ymateb yn dweud sut byddwn yn symud ymlaen.

Pan fydd anghyfiawnder neu galedi wedi digwydd, nod y Bwrdd Iechyd, pan fydd hynny'n bosibl, yw dychwelyd yr achwynwr i'r lle y byddai wedi bod pe na bai'r gwasanaeth gwael neu'r camweinyddu wedi digwydd. I gefnogi hyn, sefydlwyd panel Iawndal. Hefyd, mae uwch aelodau staff yn cynnig cyfarfod â'r achwynwyr i roi eglurhad, ymddiheuriad a chynnig camau gwella os yn bosibl.

Mae'n bwysig datrys cwyn cynted ag sy'n bosibl, ac eleni, roedden ni'n gweithio'n galed i ddatrys bron i 1,900 cwyn. Roedd 52% o'r rhain yn cael eu datrys yn anffurfiol a 48% yn ffurfiol. Y nod yw datrys pob cwyn ffurfiol o fewn 30 diwrnod gwaith a rhai anffurfiol o fewn 2 i 5 diwrnod. Ar ôl cael adborth neu gŵyn, mae'n hanfodol gwrando ar yr achwynwr ac efallai'n fwy pwysig cymryd camau i wella'r gwasanaeth i atal mwy o

gwynion. O fewn y Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n annog diwylliant dysgu lle nad yw gwella'n waith ychwanegol ond yn rhan o waith bob dydd.

Diolch am Ddarparu Gofal Gwych

Mae'n bwysig nodi bod ein staff ar draws y Bwrdd Iechyd yn derbyn cannoedd o negeseuon o werthfawrogiad bob blwyddyn. Caiff rhai o'r rhain eu gosod ar safle mewnwyd ein staff ac ar ein gwefan sydd â wal benodol ar gyfer diolchiadau aelodau'r cyhoedd i rannu profiadau, teyrngedau a diolch.

Dyma rai enghreifftiau o negeseuon a gawsom yn 2016/17:

Roedd gen i apwyntiad gyda'r Adran Gastroenteroleg yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Mewn oes o 'ladd ar' y GIG, hoffwn dalu teyrnged i'r gwasanaeth a gefais mewn adran hynod brysur o'r ysbyty. Y cofrestrydd oedd gwraig o'r enw Alison. Mae hi a'i staff cefnogi'n gredyd i'r proffesiwn ac i'r GIG. Roedd fy ymgynghoriad yn drylwyr, yn addysgiadol ac yn gysurion. Roedd hi a'i staff yn gyfeillgar, yn bleserus ac yn hynod broffesiynol ym mhob agwedd.

Gallaf wir ddweud i mi gael nifer o ymweliadau ag ysbytai yn ystod fy 70 mlynedd ac mai hwn yw'r gorau eto. Credaf fod gwasanaeth fel hwn yn haeddu clod uchel a gobeithio y gallwch drosglwyddo fy neges i'r staff, ac yn wir y rheolwyr y maen nhw'n gweithio iddyn nhw. Diolch am brofiad pleserus.

John Bache – Chwefror 2017

Yn ddiweddar, bum yn Ysbyty Nevill Hall fel claf allanol ar gyfer delweddu diagnostig a thriniaeth.

Roedd y gwasanaeth a'r gofal a gefais, heb os y gorau a gefais erioed – pob aelod o'r staff, o borthorion i ymgynghorwyr- mor garedig a gofalgarg.

Bum at nifer o ddarparwyr gofal iechyd yn fy ngwaith dros 40 mlynedd. Mae Nevill Hall yn disgleirio – mae mor dda.

Michael Head - Medi 2016

Ym mis Tachwedd 2016 roeddem yn eich adran D&A ar ôl pryderon cynyddol am ddirywiad sydyn yn iechyd ein merch 3 oed y diwrnod hwnnw.

Ni all geiriau fynegi ein diolch a'n gwrthfawrogiad i chi i gyd y noson honno; roeddech chi'n achub bywyd ein merch fach. Rydych chi i gyd yn anhygoel a hoffem pe gallem ddiolch i chi i gyd yn bersonol. Nid ydym wedi gweld unrhyw beth mor trawmatig erioed a gwnaethoch bob peth yn eich gallu i achub ein merch y noson honno. Roedd yn anghredadwy. Hebdoch chi, ni fyddai gennym ein merch fach adref gyda'i brawd bach. Nid oes geiriau a all ddiolch digon.

Roeddech chi'n fy helpu i i fod yno i ganu eu hoff ganeuon i Megan. Diolch i chi am fy nghynnal drwy'r hunllef waethaf erioed i riant.

Treuliodd Megan bum niwrnod wedyn mewn gofal dwys yn ysbyty Arch Noa lle hefyd roedd meddygon a nyrsys oedd yn parhau i ofalu am Megan a oroesodd yr haint dychrynlyd yn ffodus iawn. Roedd Megan yn gwella'n iawn ac adref mewn pryd i'r Nadolig. Heb eich ymateb sydyn a pherffaith i'r haint hwn, mae'n bosibl y byddai pethau wedi bod yn wahanol.

Byddwch chi i gyd â lle arbennig yn ein calonnau am byth. Diolch.

Lauren, John, Megan a Jaxon - Chwefror 2017

Yn ddiweddar, cefais lawdriniaeth yn Ysbyty Ystrad Fawr. Am brofiad pleserus, anhygoel a gefais o'r funud i mi gyrraedd hyd at i mi adael. Cefais driniaeth a llawdriniaeth drwy gydol fy oes mewn ysbytai ar draws Prydain o ganlyniad i ddamweiniau a salwch ond ni chefais driniaeth cystal â hyn mewn unrhyw ysbyty arall o'r funud i mi gyrraedd tan i mi gael fy rhyddhau.

Roedd agwedd y staff- o'r nyrsys dan hyfforddiant i staff y theatr a'r llawfeddyg - yn anhygoel. Roedd pawb fel petaen nhw'n cymryd diddordeb i'm gwneud yn gysurus a gofalu am fy lles.

Gyda llaw, nid yw pethau'n creu argraff arnaf yn hawdd; yn 68 oed, cefais amser i weld a phrofi nifer o ysbytai, fel ymwelydd ac fel claf. Yn Ysbyty Ystrad Fawr, roeddwn yn teimlo fel gwestai'n cael croeso bob amser.

Mike Barton - Mai 2016

Ymgysylltu â'r cyhoedd

Yn ystod 2016/17, atgyfnerthwyd ein gwaith i ymgysylltu â chymunedau ar draws Gwent. Mae ein Tîm Ymgysylltu wedi bod yn bresennol mewn cymunedau ar draws Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen i glywed am brofiadau, meddyliau a syniadau pobl am iechyd yn eu hardal. Ers eu sefydlu yn Hydref 2015, mae'r tîm wedi siarad gyda 12,681 o bobl, gyda 5,147 o'r rhain yn ystod blwyddyn 2016/17. Nid yw'r niferoedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ail-lunio gwasanaethau ffurfiol (mae'r rhain yn cael eu cofnodi ar wahân o fewn adran ail-lunio gwasanaethau'r adroddiad hwn). Mae'r canlynol yn rhoi darlun i'r ymagwedd hwn.

- **Engage4change**

Mae'r Tîm Ymgysylltu wedi ymrwymo i fod yn ardaloedd sŵn traed uchel yn un o 5 ardal Gwent bob wythnos. Oherwydd hyn, mae rhaglen dreiglo ar waith i gael presenoldeb y Bwrdd Iechyd mewn mannau cyhoeddus niwtral fel archfarchnadoedd, neuaddau marchnad, siopau un alwad a Chanolfannau Hamdden gan roi cyfle i gyrraedd i mewn i gymunedau i glywed eu barn a'u sylwadau mewn amgylchedd niwtral.

Ers ei sefydlu, mae'r tîm wedi bod yn bresennol mewn 157 o wahanol gymunedau gwahanol, 72 o'r rhain yn ystod 2016/17. Maen nhw wedi ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys



Dewis Doeth	Cadwch D&A hyd nes eich bod ei angen
Fy Iechyd ar-lein	Meddygon Teulu y Tu allan i Orlau
Fferyllfa- rheoli meddyginiaethau	Rhoi'r Gorau i Ysmygu
Rheoli Straen /Ysgogwch eich bywyd	Dyfodol Clinigol
Brechiad y Ffliw	Bod yn Ddoeth dros y Gaeaf
Ymwybyddiaeth gwrthfotigau a gwarchodwr Gwrthfotigau	Byw Nawr
Atgyfeiriadau Trawsffiniol	Mynediad at Feddygon Teulu

Mae pobl fyddai'n hoffi cael sgwrs hir gyda'r Bwrdd Iechyd am wasanaethau iechyd yn cael cyfle i ymuno â Rhwydwaith Pobl y Byrddau Iechyd. Mae tua 120 o bobl ar hwn.

Yn dilyn y cyhoeddiad am y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol ym mis Hydref 2016, cafwyd ymdrech galed i siarad â phobl am y datblygiad newydd cyffrous hwn gyda 2,259 o bobl yn gweld y lluniau a bod yn rhan o drafodaeth ar ryw lefel yn barod ... a nifer o gwestiynau'n cael eu codi a'u hateb.

• **Better2gether**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'n llawer cadarnach gyda'i weithgareddau ymgysylltu mewn cymunedau ar draws Gwent ac, o'r herwydd, bu llai o ddibynnu ar sefydliadau eraill i gael mynediad i'w rhwydweithiau. Er waethaf hyn, mae perthnasoedd yn dal i gael eu creu mewn cymunedau. Mae ein rhwydwaith o rwydweithiau'n awr yn cadw gwybodaeth ar gyfer 209 o wahanol rwydweithiau gan gynnig cyrraedd nifer o gymunedau a sefydliadau partner fel y sector gwirfoddol, Cymdeithasau Tai a phaneli trigolion yr Awdurdodau Lleol. Mae nifer o'r rhain yn rhannu gwybodaeth ar ein rhan ac yn cefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd.



O'r rhai i'w cofnodi yn y 6 mis diwethaf o adrodd yn ôl cafwyd:

Presenoldeb yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru - Roedd y Tîm Ymgysylltu'n cefnogi stondin GIG Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru gan ymgysylltu ag unigolion drwy gyfrwng y Gymraeg am yr hyn oedd yn cyfrannu at eu lles yn eu barn nhw. Datblygwyd coeden lles i gynorthwyo gyda'r gweithgaredd hwn i alluogi pobl i ryngweithio gyda chyfraniad gweledol. Roedd presenoldeb yn yr Eisteddfod yn ddull effeithlon i alluogi'r sgwrs hon ac i gynnal peilot o'r offeryn Lles.

Gwaith Cefnogi Lles Cenedlaethau'r Dyfodol - adeiladu ar effeithlonrwydd gwaith Lles a'r defnydd o'r goeden Les yn yr Eisteddfod. Roedden ni'n parhau i ddefnyddio'r dull hwn o gael gwybodaeth gan bobl ar draws Gwent am yr hyn oedd yn cyfrannu at eu lles. Defnyddiwyd y goeden yn y manau canlynol:

• Eisteddfod Genedlaethol Cymru	• Digwyddiad Lles Blaenau Gwent
• Mosgiau	• Digwyddiad 50+ Casnewydd
• Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	• Digwyddiad Arddangos Therapiau

Cyswllt Cymunedau

Mae gweithgareddau'r Byrddau Iechyd mewn rhai cymunedau daearyddol ac o ddiddordeb cyffredin wedi cryfhau yn y flwyddyn ddiwethaf. Y rhai pwysig oedd:

Cynghorau Tref - Mae 73 Cyngor Tref yng Ngwent. Ymwelwyd â 29 o'r rhain yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Mae'r ymweliadau hyn yn hynod bwysig ar gyfer cyswllt parhaus y Bwrdd Iechyd gyda chymunedau ar draws Gwent ac yn cynnig cipolwg rhagorol i'r materion sydd o bwys mawr i wahanol gymunedau gan alluogi trafodaeth Iechyd lleol.

Grwpiau Croenddu a Lleiafrifol Ethnig - Crëwyd perthnasoedd cryf gyda 4 o'r Mosgiau yng Nghasnewydd gydag ymweliadau rheolaidd â hwy yn dilyn gweddïau dydd Gwener. Trafodwyd lles a datblygiadau gwasanaethau gyda dynion Mwslimaidd ar draws Gwent. Gwnaed cysylltiadau da hefyd gyda'r Fforwm 50+ AGE Alive yn ystod y flwyddyn. Dyma rai o'r aelodau'n trafod y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol.



Plant a Phobl Ifanc - Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cysylltiadau da gyda'r colegau ar draws Gwent gyda nifer o 'wyliau lles' yn cael eu trefnu a'u mynychu.

Ail-lunio a Datblygu Gwasanaethau

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu/ymgyngori am newidiadau'r gwasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Uno Gwasanaethau'r Fron yng Ngwent ar un safle
- Ail-lunio gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn yng Ngwent
- Twf y gwasanaethau y tu allan i oriau yn y gymuned a gostyngiad o'r herwydd mewn darpariaeth dros nos yn un o ganolfannau'r Bwrdd Iechyd.

Trefnwyd yr holl sesiynau drwy argaeledd briffiau ysgrifenedig, sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd, sesiynau ymgysylltu â staff a chyfeiriad e-bost penodol. Oherwydd y sesiynau hyn, gwelwyd ymgysylltu gyda 316 yn fwy o bobl.

Mae gwaith cenedlaethol a rhanbarthol yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys cyfraniad at drafodaethau am waith y Rhwydwaith Trawma Mawr a Chleifion Allanol Cenedlaethol.



Ymgysylltu â Staff

Yn 2016/17, roedden ni'n parhau i ddatblygu ein hymgysylltu â'n staff drwy nifer o ddulliau gan gynnwys:

- Bwletin newyddion wythnosol i staff;
- Atgoffa rheolwyr ar bob lefel i rannu newyddion a gwybodaeth ddiweddar gyda'u staff;
- Fforwm ar-lein i ofyn unrhyw gwestiwn i'n Prif Weithredwr;
- Mentrau cyfryngau cymdeithasol cynyddol i ddathlu a diolch i'n staff (e.e. Mis Rhyngwladol y Nyrsys, Diwrnod Diolch i'ch Porthor);
- Sesiynau galw heibio misol i staff gyfarfod ein Prif Weithredwr mewn amrywiaeth o adeiladau'r Bwrdd Iechyd;
- Menter lle gall timau wahodd arweinwyr Gweithredol i weithio gyda nhw am ddiwrnod;
- Achlysuron briffio Uwch Arweinyddion;
- Ein ffair iechyd blynyddol i'n staff rannu eu gwaith gyda staff eraill a'r cyhoedd;
- Nifer o gynadleddau i staff rannu eu gwaith, cynyddu eu haddysg a dathlu eu llwyddiannau;
- Achlysuron Cydnabod ein Staff a'n Gwirfoddolwyr; a
- Mae Arolwg Staff GIG wedi ein galluogi i gasglu ystod o sylwadau gan staff y gallwn ddysgu ohonyn nhw a gweithredu arnyn nhw.

Mae ein timau Cyfathrebu a Gweithlu wedi ymrwymo i ddatblygu ymhellach ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd gyda staff, yn arbennig mewn cysylltiad â'n Strategaeth Dyfodol Clinigol sy'n newid y modd y mae ein gwasanaethau iechyd yn cael u darparu.

Ymchwil a Datblygiad (R&D) o fewn y Sefydliad

“Mae Ymchwil a gweithgareddau ymchwil yn effeithio’n uniongyrchol ar ddeilliant ansawdd a phrofiad cleifion,.” (Boaz et al, 2015).

Mae cysylltiad rhwng ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau gofal iechyd mewn gwaith ymchwil a gwelliannau mewn perfformiad gofal iechyd.

Rôl yr adran R&D yw galluogi mynediad i’r datblygiadau arloesol, triniaethau ac ymyraethau diweddaraf er budd ein cleifion a’n staff. Mae Ymchwil, Datblygiad ac Arloesi’n cael eu mewnosod ar draws pob maes clinigol ac anghlinigol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gleifion gymryd rhan mewn treialon clinigol fel rhan o’u gofal clinigol arferol a hefyd yn rhoi cyfle i staff ymgysylltu gyda gwaith ymchwil fel rhan o’u bywyd gwaith. Mae ein hadran R&D yn sicr yn edrych allan gyda phartneriaethau cryf gyda Phrifysgolion a Diwydiant yn darparu amgylchedd bywiog a chroesawus ar gyfer cynnal gwaith ymchwil.



Fel Bwrdd Iechyd Prifysgol, mae gan Aneurin Bevan ddiwylliant cryf o ymchwil lle mae ymchwil yn weithgaredd crai. Mae hyn wedi esgor ar gynnydd mewn:

- Cyfarfod targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, lle’r oedd y nifer o gyfranogwyr yn cynyddu o 1,101 i 1,963 mewn 75 astudiaeth wahanol. Mae 98 astudiaeth arall yn dilyn achos cleifion.
- Mae cyfraddau cymeradwyo rheolaeth ymchwil y Bwrdd Iechyd yn rhedeg yn gyson rhwng 95-100%.
- Y nifer o feysydd arbenigol clinigol sy’n cynnal gwaith ymchwil.
- Penodi mwy o academyddion clinigol i adeiladu ar ein llwyddiant yn y 3 blynedd ddiwethaf.
- Cynnydd mewn incwm cymorthdaliadau gyda 3 gwobr Ymchwil er budd Cleifion a’r Cyhoedd (RfPPB) o £300k: 1 gwobr NIHR o £500k; ac 1 NIHR o £300k.
- Ein llwyddiant cyntaf i ennill dau Arweinydd Arbenigol Ymchwil HCRW.
- Ein llwyddiant cyntaf yn y sesiynau ymchwil ariannu Cydweithio i Greu Gallu Ymchwil (RCBC) gydag arian HCRW ar gyfer 2 aelod o staff.
- Treialon yn cynnwys clefyd Parkinson’s, Bronchiectasis, Dermatoleg, Bydwreigiaeth, Henoed Bregus, Rhiwmatoleg, Llawfeddygaeth Orthopaedeg, Llawfeddygaeth Fasgwlar a Llawfeddygaeth Gyffredinol, Offthalmoleg, Anaestheteg ac ITU, Sepsis, Rheoli Heintiau, ENT, Iechyd Meddwl a Gwella Briwiau.

- Am y tro cyntaf, sicrhau dwy swydd Arweinyddion Arbenigedd Ymchwil gydag arian Llywodraeth Cymru dros Gymru gyfan (rhan amser):
 - Arweinydd Arbenigedd Cymru dros Anaesthesia, Gofal yn ystod y Llawfeddygaeth a Rheoli Poen.
 - Arweinydd Arbenigedd Cymru dros Strôc.
- Sefydlu'r Banc Nyrsys Ymchwil cyntaf yng Nghymru, recriwtio a hyfforddi nyrsys sydd wedyn yn gallu cefnogi treialon clinigol lle nad oedd adnoddau ar gael o'r blaen. Mae'r fenter arloesol hon wedi darparu ateb mwy cynaliadwy i gefnogi treialon clinigol yn y Bwrdd Iechyd.
- Galluogi mynediad i'n partneriaeth prifysgol i'r Bwrdd Iechyd fel mwy o brosiectau ymchwil ar gael.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Phartneriaeth Gwyddor Iechyd Academiaidd De Ddwyrain Cymru (SEWAHSP), cydweithio rhwng Prifysgolion, UHB ac Ymddiriedolaethau yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae hyn wedi esgor ar fwy o wobrau cymorthdaliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer 30 prosiect gyda Diwydiant, Prifysgolion a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Adrannau'n cynnwys Gwyddorau Gofal Iechyd, Seicoleg a Mathemateg.



Perfformiad yn erbyn Targedau

Roedd y perfformiad cyffredinol yn erbyn Prif Ddangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2017 yn dda.

- Cyflawni 100% targed am gymeradwyaeth i brosiectau ymchwil anfasnachol.
- Cyflawni 100% targed am gymeradwyaeth i brosiectau ymchwil masnachol.
- Cyflawni 90% targed am y nifer o astudiaethau portffolio agor a recriwtio.
- Cyflawni 100% targed i gynyddu'r nifer o gyfranogwyr treial i dreialon anfasnachol a hefyd masnachol.

Prif Ddangosyddion		Targed	Perfformiad
A1	Data ymchwil a gyflwynwyd mewn Cyfarfodydd Bwrdd GIG	Dwywaith y flwyddyn	Met
A2	Cynrychiolaeth R&D mewn Cyfarfod Bwrdd	Cadarnhad o aelod bwrdd yn cynrychioli R&D	Met
A3	Strategaeth R&D diweddar	Cadarnhad ei fod yn gyfddyddiol	Met
A4	Cynnwys ymchwil yn adroddiad blynyddol y sefydliad	Cadarnhad ei fod wedi'i gynnwys	Met
B2	Defnydd priodol o ddyraniad R&D	Yr holl wariant wedi'i nodi yn yr adroddiadau blynyddol	Met
B3	Adrodd yn brydlon ac yn gywir am gyllid	Cyflwyno'r holl adroddiadau erbyn y dyddiad cau a nodwyd	Met
B4	Gweithredu ACCORD	Dangos mewn athreuliad cywir mewn adroddiadau blynyddol	Met

Gwelliannau Parhaus Aneurin Bevan (ABCi)

ABCi yw tîm gwelliant parhaus y Bwrdd Iechyd. Cydnabyddir ef ar draws Cymru ac ymhellach am ei arweinyddiaeth a'i ddulliau arloesol o gefnogi trawsnewid mewn Gofal Iechyd. Yn y 12 mis diwethaf, mae wedi ennill Gwobr Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru gyfan (AWCIC), ac roedd ar y brig yng ngwobrau Sefydliad Gwelliant Parhaus Ymarferwyr mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (ICIPs). Ei nod yw cefnogi:



- Creu arfer arloesol o fewn y Bwrdd Iechyd
- Creu galluedd ar gyfer Gwella Ansawdd, Arweinyddiaeth a Modelu Mathemategol
- Cyflwyno rhaglenni trawsffurfiannol mwy sy'n cefnogi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)

Creu arfer arloesol o fewn y Bwrdd Iechyd

Ers ei greu, mae'r ABCi wedi ymrwymo i gefnogi datblygu pethau newydd o fewn y Bwrdd Iechyd. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i gefnogi hyn drwy:

- Drefnu digwyddiadau rhwydwaith Aur yn barhaus gan barhau i gefnogi creu rhwydwaith arloesol o fewn y Bwrdd Iechyd
- Gefnogi unigolion a thimau i ychwanegu at sgiliau a medrau gan eu galluogi i brofi pethau newydd ar waith. Enghreifftiau:
 - o Cefnogaeth i brosiectau gwella cwympiadau parhaus
 - o Datblygu dulliau arloesol i greu Cynlluniau Gofal Ychwanegol dibynadwy o fewn cartrefi nyrsio



Mae ein cefnogaeth i bethau newydd o fewn y Bwrdd Iechyd gael eu cyflwyno ar gyfer 46 Gwobr GIG Cymru gyda saith ar restr fer. Mae ABCi yn falch o fod yn hwb Comisiynu Pethau Newydd Aneurin Bevan gyda'i thema ganolog i ddatblygu a mewnosod modelu mathemategol o fewn Byrddau Iechyd.

Gallu i Adeiladu

Mae tîm ABCi yn parhau i roi llawer iawn o'i amser a'i adnoddau i adeiladu gallu trefniannol ar gyfer Gwella Ansawdd (QI) a, thrwy weithio mewn partneriaeth, hyfforddi sgiliau arwain ynghyd â thechnegau modelu mathemategol.

Cyflenwi rhaglenni trawsffurfiannol

Drwy raglenni adeiladu galluedd ABCi, mae gennym yn awr dros 4,000 o aelodau wedi'u hyfforddi mewn offer a thechnegau Gwella Ansawdd. Mae hyn yn cynrychioli adnodd sylweddol i gefnogi trawsffurfio trefniannol o'i ffocysu'n briodol. Ar ôl hynny, mae ABCi wedi datblygu fframwaith ar gyfer cyflenwi gwelliant gan alluogi cefnogi rhaglenni gwella mwy gan dîm cymharol fach a pharhau i greu galluedd gwella a dangos effaith ar raddfa fwy. Dros y deuddeg mis nesaf, mae ABCi yn bwriadu creu nifer o achosion cydweithio i wella mewn partneriaeth gyda rhanbarthau a chyfarwyddiaethau.

Mae'r rhain yn cynnwys:

Cydweithio ar ofal heb ei drefnu

Nod y pwyllgor cydweithio yw cyflenwi gwasanaeth gofal claf-ganolog heb ei drefnu sy'n cyflawni anghenion cleifion a staff. Yr arfer gorau a welir o Golegau Brenhinol a

chyrff proffesiynol yw ein bod yn anelu at gael y claf cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir. I sicrhau gwell lefel o system gynaliadwy bydd



ein dull wedi'i seilio ar arfer gorau a thystiolaeth o ardaloedd eraill. Mae amrywiaeth o enghreifftiau o brosesau sy'n gwella llif cleifion drwy'r broses aciwt a defnyddir hwn i ddatblygu'r pecyn newid i'r timau ei weithredu. Defnyddir hwn i wneud newidiadau sy'n gwella profiad cleifion o'n gwasanaeth. Hyd yn hyn, mae'r pwyllgor cydweithredu wedi bod yn rhedeg ers mis Rhagfyr 2016, gyda thystiolaeth o wella wrth

ryddhau, hyd arhosiad a throsiant gwelyau. O gofio llwyddiant y pwyllgor cydweithio, mae'r camau nesaf sydd wedi'u cynllunio dros y 6-12 mis nesaf yn cynnwys:

- Gwella pob ward o fewn RGH, ac yna ychwanegu NHH
- Dechrau gwaith gydag ysbytai cymuned gyda chyn-hyfforddiant wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf

Gwella Cleifion allanol

Mae'r rhaglen gwella cleifion allanol ar hyn o bryd yn beilot gyda'r Gyfarwyddiaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) ac yn dechrau rhaglen wella mewn partneriaeth gyda'r tîm ABCi er mwyn gwella eu gwasanaethau cleifion allanol.

Nod penodol y Rhaglen Gwella OPD ENT yw sicrhau bod cleifion â symptomau ENT yn cael mynediad amserol i'r wybodaeth a'r driniaeth y maen nhw eu hangen. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn cael diagnosis a thriniaeth amserol gan y person mwyaf priodol ac yn y lle mwyaf priodol ar hyd y llwybr cleifion pa un a ydy hyn o fewn gofal sylfaenol neu eilaidd.

Bydd y rhaglen Trawsnewid ENT yn rhedeg am 6-12 mis a bydd yn defnyddio cyfresi dysgu a chyfnodau gweithredu i adeiladu sgiliau, amlygu meysydd ar gyfer gwella, profi newidiadau drwy ddefnyddio cylchoedd PDSA, rhannu dysgu, monitro gwelliant a chynnal momentwm. Bydd yr hyn a ddysgir o'r gwaith hwn yn dechrau hysbysu Pwyllgor Cydweithio Trawsffurfio OPD ehangach ABUHB fydd yn dechrau ym mis Medi 2017.

Addysg Feddygol – Ysgol Glinigol Gwent

Roedd 2016/17 yn flwyddyn hynod bwysig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gan i ni gadw ein statws Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried addysg a hyfforddiant yn barod fel busnes crai ac, fel rhan o'n cais i gadw statws Bwrdd Iechyd Prifysgol, roedd angen i ni baratoi adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru i fewngapsiwleiddio maint ac amrywiaeth y gweithgareddau addysgol ac ymchwil sy'n digwydd o fewn y Bwrdd Iechyd. Hefyd, gwnaed y cysylltiadau rhwng addysg, ymchwil a gwelliant ansawdd yn eglur, gan ddangos yn glir sut mae gweithgareddau mewn addysg ac ymchwil yn esgor ar welliannau go iawn mewn gofal cleifion.

Mewn achlysur a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd Byrddau Iechyd ar draws Cymru'n mynychu i rannu uchafbwyntiau a llwyddiannau ac i rannu rhaglenni gwaith fydd yn parhau i wella gofal cleifion drwy addysg ac ymchwil clinigol yn y dyfodol.

O fewn addysg feddygol, mae ABUHB wedi parhau i weithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd i ddarparu lleoliadau clinigol ar gyfer myfyrwyr meddygol israddedig yn dilyn cwricwlwm C21. Mae'r cwricwlwm hwn yn awr yn cael ei weithredu'n llwyr yn y bum mlynedd ac mae ABUHB yn parhau i weithredu fel partner hanfodol wrth gyflenwi a gwella'n barhaus i sicrhau bod ein meddygon y dyfodol wedi'u hyfforddi'n dda ac yn addas i bwrpas.

Mae 2016/17 hefyd wedi gweld ffocws cynyddol ar reolaeth ac ansawdd o fewn addysg feddygol. Drwy weithio gyda Deoniaeth Cymru, rydym wedi gweithredu proses ansawdd cynhwysfawr a chadarn lle gellir delio â phryderon a phroblemau a godwyd am hyfforddiant ein meddygon iau, yn effeithlon. Mae hyn yn barod wedi esgor ar nifer o welliannau sy'n gwella ymhellach profiad addysgol ein hyfforddai meddygol ynghyd â gwella gofal a diogelwch cleifion.

Hefyd rydyn ni wedi derbyn yn llwyr y cysyniad o broffesiynoleiddio a ffurfioli rôl y Goruchwyliwr Addysgol o safbwynt hyfforddai meddygol. Ni oedd y Bwrdd Iechyd



cynaf yng Nghymru i arwyddo'n llawn i Gytundeb Tridarn Goruchwyliwr Addysgol a gyflwynwyd gan Ddeoniaeth Cymru. Arwyddir y Cytundeb hwn yn awr gan bob Goruchwyliwr Addysgol ac mae'n amlinellu eu rolau a'u cyfrifoldebau o safbwynt hyfforddiant. Fel Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n awr yn sicrhau bod ein holl Oruchwylwyr Addysgol yn cael hyfforddiant priodol a hefyd eu bod yn cael digon o amser i ymgymryd â'r rôl ac felly darparu gwell cefnogaeth ac arweiniad i'n hyfforddai meddygol.

Mae'r addysg ar gyfer hyfforddai meddygol israddedig a graddedig yn gymysgfa di-dor o addysgu ffurfiol a dysgu arbrofol gydag anghenion gwasanaeth ac anghenion hyfforddiant yn aml yn cyfuno mewn cyfleoedd addysgol. Rydym wedi cefnogi hyn ymhellach gyda rhith hyfforddiant yn defnyddio efelychwyr cywair-bur i ddyblygu

sefyllfaoedd clinigol brys. Defnyddiwyd y dull hwn o wella gweithio mewn tîm ac effeithlonrwydd clinigol am nifer o flynyddoedd mewn meysydd aciwt (er enghraifft Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys) ond rydym yn awr wedi dechrau ehangu mynediad i feysydd llai aciwt ac felly gwella gweithio fel tîm ar draws y Bwrdd.

Cynladwyedd

Strwythur Rheolaeth

Mae gan y Bwrdd Grŵp Llywio Lles Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys agenda eang fel Ynni, Gwastraff, Dŵr a Chynladwyedd. Y Cyd-gadeiryddion yw'r Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ac Ysgrifennydd y Bwrdd. Cylch gwaith y grŵp yw datblygu agenda cynladwyedd y sefydliad.

Ymdrinnir â materion iechyd cyhoeddus amgylcheddol ar y cyd gyda Iechyd Amgylchedd Iechyd y Cyhoedd Cymru a'r Asiantaethau Diogelu Iechyd yn Lloegr. Cyflwynir adroddiadau digwyddiadau iechyd y cyhoedd amgylcheddol i'r Pwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Lles.

Proffil yr Ystâd

Mae ystâd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys tir o 121.82 hectar gyda chyfanswm arwynebedd adeiladau gros o 312,426 M2 ac mae'n cynnwys:

- 2 ysbyty aciwt cyffredinol
- 3 ysbyty aml-wasanaeth
- 4 ysbyty tymor byr heb fod yn rhai aciwt
- 2 ysbyty arhosiad hir
- 1 ysbyty arbenigol
- 3 ysbyty cymuned
- 48 canolfan cyfleusterau cleifion arall
- 9 canolfan cyfleusterau cefnogi arall

Uchafbwyntiau Perfformiad

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at darged heriol o ostwng carbon o 3% blwyddyn ar ôl blwyddyn am 5 mlynedd. Mae hyn yn parhau'r targed 5 mlynedd flaenorol oedd yn esgor ar ostyngiad o 18% mewn treulïad cyffredinol a gostyngiad o 14% mewn gollyngiadau CO2 dros 2016/17.

I sicrhau'r gostyngiad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at weithredu'r Safon Rheoli Ynni ISO 50001. Bydd ISO 50001 yn darparu system rheoli'n sy'n cael ei harchwilio gan drydydd parti fydd yn sicrhau gwella rheolaeth ynni parhaus o fewn y sefydliad.

Bydd y system reoli'n adlewyrchu'r blaenoriaethau, gyrrwyr a'r cyfleoedd presennol i'r Bwrdd Iechyd. Bydd yn archwilio sut gellir gwneud rheoli carbon o fewn y sefydliad yn fwy effeithlon, gydag arfer gorau, technoleg ac arloesi.

Mae nifer o fentrau arbed ynni wedi'u gweithredu yn ystod 2016/17 sy'n cynnwys gosod paneli Photovoltaic (systemau 5 x 50 kW) ar draws ystâd y Bwrdd Iechyd. Mae'r paneli'n cynhyrchu trydan o belydrau'r haul i ddarparu pŵer glân ac adnewyddadwy i'r ysbytai o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae amnewid peiriant gwres ac ynni cyfunol yn Ysbyty Nevill Hall wedi cynyddu'r allbwn o drydan o 30% sy'n gostwng yr angen am brynu trydan o'r grid. Mae hyn wedi esgor ar gynnydd o gynnyrch ar safle o tua 2.0M kWh i 3.5M kWh gyda gostyngiad cysylltiol mewn cost a charbon.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i dreiglo goleuadau LED ynni-effeithiol sydd wedi gostwng yn sylweddol y treiglâd ynni a chynnig gwell amgylchedd i'r cleifion.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da mewn gostwng gollyngiadau CO2.

Mae data 2016/2017 yn dangos yn y tabl isod ostyngiad o 6.3% mewn gollyngiadau CO2 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dylid nodi bod y gollyngiadau CO2 wedi'u cyfrif dros y cyfnod yn unol â'r canllawiau gyda'r ffactorau cyfnewid diweddaraf a gyhoeddwyd gan DEFRA.



Gollyngiadau Nwy Tŷ Gwydr		2014-15	2015-16	2016-17
Dangosyddion nad sy'n rhai Ariannol (1000tCO ₂ e)	Cyfanswm Gollyngiadau Gros	30.927	30.167	28.266
	Cyfanswm Gollyngiadau Net			
	Gollyngiadau Gros Sgôp 1 (Uniongyrchol)	14.608	14.948	14.714
	Gollyngiadau Gros Sgôp 2 & 3 (Anuniongyrchol)	16.319	15.219	13.552
Treuliant Ynni Perthnasol (miliwn KWh)	Trydan: Anadnewyddadwy	32.878	30.662	30.349
	Trydan: Adnewyddadwy			
	Nwy	79.36	81.208	80.124
	LPG			
	Arall	0.855	1.468	1.961
Dangosyddion Ariannol (£miliwn)	Gwariant ar Ynni	6.4	5.9	5.807
	Gwariant Trwydded CRC (2010 ymlaen)	0.545	0.520	0.508
	Gwariant ar fantoli achrededig (e.e. GCOF)			
	Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol			

Mae treuliant dŵr yn cael ei fonitro'n ofalus gyda chyfarpar monitro wedi'i osod ar bob mesurydd yn y prif safleoedd. Mae hyn yn ein galluogi i weld treuliant anghyffredin a chymryd camau i wella hyn.

Fel y gwelir yn y tabl isod, mae treuliant dŵr wedi gostwng yn 2016-17 o 409,000m³ yn 2015-16 i 392,000m³. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i werthuso cyfleoedd arbed dŵr a defnyddio offer rheoli systemau dŵr a thechnoleg newydd i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o ddŵr ar draws y sefydliad.

Treuliant Adnoddau Cyfyngedig			2014-15	2015-16	2016-17
Dangosyddion Nad sy'n Rhai ariannol (000m ³)	Treuliant Dŵr (Ystâd Swyddfeydd)	Cyflenwyd	339	409	392
		Echdynnwyd			
		I bob FTW			
Dangosyddion Ariannol (£ miliwn)	Treuliant (Ystâd nad sy'n Swyddfeydd)	Cyflenwyd			
		Echdynnwyd			
	Costau Cyflenwad Dŵr (Ystâd Swyddfeydd)		1.090	1.112	1.075
	Costau Cyflenwad Dŵr (Ystâd nad sy'n Swyddfeydd)				

Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflwyno dulliau mwy cynaliadwy ac effeithiol o ran adnoddau o brosesu'r gwastraff sy'n cael ei greu mewn gweithgareddau

gofal iechyd. Mae cyfleusterau ailgylchu ym mhob prif ysbyty lle mae deunyddiau ailgylchu cymysg yn cael eu casglu i'w dosbarthu a'u hail brosesu'n ddiweddarach yn gynnyrch a deunyddiau newydd. Mae cardfwrdd yn cael ei wahanu a'u becynnu yn y ddau brif ysbyty o fewn y Bwrdd Iechyd a'i brosesu yn becynnau maint melin.

Mae Gwahanu Gwastraff Heintus yn cael ei werthuso'n barhaus, a lle mae'n bosibl yn unol gyda chanllawiau ac arfer gorau, mae eitemau'n cael eu tynnu allan a'u cyfeirio at opsiwn gwaredu cost is.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithredu arferion rheoli gwastraff arloesol sy'n cynnwys treialu ailbrosesu ac ailgylchu deunydd Polypropylene o hambyrddau offer theatr a chyflwyno cynwysyddion newydd a gwell gwahanu ar gyfer gwaredu bagiau Hylif IV gwag.

Hefyd, cyflwynwyd system ailgylchu Gwastraff Bwyd yn Ysbyty Ystrad Fawr, lle mae'r holl wastraff bwyd yn cael ei anfon ar gyfer Treuliant Anaerobig sy'n cynhyrchu Biogas a thrydan.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at weithredu agwedd dim gwastraff i dirlenwi. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i'r opsiynau i droi gwastraff gweddilliol yn ynni neu at beiriant gwastraff.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi arwain prosiect 'byd cyntaf' ar ailgylchu deunydd offer polypropylene o Uned Steryllu a Diheintio Ysbytai (HSDU), i'w ailgylchu.

Cyn cyflwyno'r fenter ailgylchu, roedd yr holl ddeunydd polypropylene o HSDU yn cael ei gasglu mewn bagiau Gwastraff Peryglus Oren a'i nodi fel Gwastraff Heintus oedd yn gostus iawn yn ariannol ac yn amgylcheddol.

Gall y Bwrdd Iechyd ddangos nifer o fuddion o safbwynt anfon deunydd o'r llyf gwastraff clinigol (2 dunnell fetrig y mis ar hyn o bryd) i gynhyrchu polymer masnachol sy'n nwydd gwerthfawr.

Mae cynlluniau pellach ar y gweill i gydweithio gyda Chyflenwydd Gofal Iechyd mawr i ddefnyddio technoleg argraffu 3D i greu deunyddiau traul gofal iechyd yn uniongyrchol o "wastraff plastig" yr ysbytai eu hunain ac felly creu model ailgylchu dolen gaëedig i elw'r economi cylchol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn cefnogaeth ac arian gan Gomisiwn Bevan i ddatblygu'r prosiect ymhellach a pharhau i uwchraddio'r broses ar draws y Bwrdd Iechyd a'r GIG yng Nghymru.



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn cyhoeddusrwydd a chydabyddiaeth eang i'r prosiect oedd yn cynnwys ymddangos ar bennawd ar raglen BBC Wales Today dydd Gwener 2 Rhagfyr 2016.

Drwy adeiladu ar y llwyddiant, roedd y Bwrdd Iechyd yn derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol i'r prosiect ac yn ennill y 'Categori Arloesi' yng Ngwobrau Cynladwyedd GIG 2017 yng Ngholeg Imperial Llundain.



Mae'r tabl isod yn amlinellu perfformiad gwastraff dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynyddu ei gyfraddau ailgylchu o 23% yn 2015-16 i 26% yn 2016-17.

Gwastraff		2014-15	2015-16	2016-17
Dangosyddion nad sy'n Ariannol (tunelli metrig)	Cyfanswm Gwastraff	2782	3080	3055
	Tirlenwi	1343	1410	1418
	Ail ddefnyddio/ Ailgylchu	619	725	801
	Compost			
	Llosgi gan adfer ynni			
	Llosgi heb adfer ynni	820	825	836
Dangosyddion Ariannol (£ 000)	Cyfanswm Cost Gwaredu	853	831	845
	Tirlenwi	293	319	333
	Ail ddefnyddio/ Ailgylchu	104	72	64
	Compost			
	Llosgi gan adfer ynni			
	Llosgi heb adfer ynni	456	440	448

**O fewn y data gwastraff, mae ychydig o frasmcanu o safbwynt casglu biniau ar olwynion o Ganolfannau Iechyd a Chlinigau. Mae hyn tua 1.7% o gyfanswm tunelli metrig i dirlenwi.*

Rheolaeth Amgylcheddol - ISO 14001

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu System Rheolaeth Amgylcheddol (EMS) ardystiedig trydydd parti i'r safon ryngwladol ISO 14001.

Mae'r EMS wedi datblygu i fod yn bwynt ffocws ar gyfer datblygu gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae'n darparu ymagwedd unol at reoli mentrau lleihau gwastraff, ailgylchu, rheoli ynni a charbon, pwrcasu cynaliadwy a mentrau teithio gwyrdd.



Mae Ardystio'n sicrhau nid yn unig ein bod yn cydymffurfio gyda deddfwriaethau ond ein bod yn mynd y tu hwnt i hyn ac felly'n gweithredu arfer gorau yn ein rôl fel sefydliad GIG enghreifftiol ym maes rheoli gwastraff gofal iechyd ac amgylcheddol.

Mae'r sefydliad yn gosod pwysigrwydd mawr ar ardystio parhaus i ISO 14001 a'r sicrwydd y mae'n ei ddarparu i'r bwrdd a'n budd-ddeiliaid.

Edrych Ymlaen

Byddwn yn parhau, fel sefydliad, i ddatblygu ein gwelliannau a'n datblygiadau. Byddwn yn parhau i gyflawni ein busnes yn agored ac yn darparu gwybodaeth ar ein perfformiad yn gyhoeddus.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am ein gwasanaethau i roi sicrwydd i'n pobl a'n budd-ddeiliaid bod ein gwasanaethau'n effeithiol, yn effeithlon, yn briodol ac wedi'u llunio i gyflawni eu hanghenion a'u disgwyliadau.

Cysylltiadau Defnyddiol

Gobeithio i chi gael yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol. Drwy'r adroddiad, rydym wedi cyfeirio at ddogfennau ac adroddiadau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth fwy manwl am y flwyddyn 2016/17, gan gynnwys:

- **Datganiad Ansawdd Blynyddol 2016/17**
- **Adroddiad Atebolrwydd, Datganiad Rheolaeth Blynyddol a'r Cyfrifon Ariannol 2016/17**
- **Adroddiad Perfformiad 2016/17**

Gellir gweld yr adroddiadau hyn drwy ddilyn y ddolen isod:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Y Pencadlys
Ysbyty Sant Cadog
Ffordd y Porthdy
Caerllion
Casnewydd
NP18 3XQ

Ffôn: 01633 436700, neu e-bost abhb.enquiries@wales.nhs.uk